

BLAENAU GWENT A PLAY FRIENDLY COUNTY...

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a
Chynllun Gweithredu 2016-2019





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Enw'r Awdurdod Lleol: *Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent*

Enw'r peron sy'n gyfrifol: *Claire Smith*

Teitl Swydd: *Rheolwr Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae*

Dyddiad cwblhau: *Mawrth 30^{ain}, 2016*

Noder bod rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae erbyn Mawrth 31^{ain}, 2016



Cynnal yr Asesiad – Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Yn ogystal â sefydlu gwaelodlin darpariaeth, bydd yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn galluogi'r canlynol:

- Nodi bylchau mewn gwybodaeth, darpariaeth, cyflenwi gwasanaeth a gweithredu polisi
- Cefnogi sefydlu tystiolaeth i ddynodi'r pellter a deithiwyd mewn perthynas â digonolrwydd chwarae
- Amlygu ffyrdd posib o fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth
- Mewnbwn ag ymwneud holl bartneriaid yn cynyddu lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth
- System fonitro a fydd yn cynnwys a gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol
- Nodi enghreifftiau o arfer da
- Lefelau cynyddol o bartneriaethau wrth asesu cyfleoedd chwarae digonol
- Nodi camau i'w cymryd i Sicrhau Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Digonolrwydd Chwarae sy'n mynd law yn llaw â'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae

Lluniwyd patrymlun i gefnogi gwerthusiad corfforaethol o'r materion sydd angen eu hystyried yn ôl y Canllawiau Statudol. Mae'r dangosyddion a restrir o fewn pob mater yno fel sampl o ddangosyddion ac fe ddylid eu newid i gwrdd â materion lleol fel bo'n briodol.

Fe ddylai'r Asesiad Digonolrwydd cyfleoedd Chwarae ddangos bod yr Awdurdod Lleol wedi ystyried ac asesu'r materion a nodir yn Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 a'r Canllawiau Statudol.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth sylfaenol, gall yr Asesiad gynnwys esiamplau o arfer cyfredol yr hoffai'r Awdurdod Lleol eu harddangos.

Efallai yr hoffai Awdurdodau Lleol ystyried strwythuro'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn y modd canlynol a mynd i'r afael â'r holl adrannau a nodir, fan leiaf.

Prif Ddatganiad

Fe ddylid defnyddio'r adran hon i fynegi cydnabyddiaeth yr Awdurdod Lleol o werth a phwysigrwydd chwarae ym mywydau plant.

Mae yma amgylchedd naturiol amrywiol ym Mlaenau Gwent sydd yn addas i blant chwarae; mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn rhoi gwerth ar bwysigrwydd chwarae i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'r lles i gymunedau lleol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn teimlo'n angerddol am chwarae plât ac yn credu y dylai pob plentyn fod â'r rhyddid i chwarae yn yr awyr agored yn gyson, yn actif ac annibynnol, yn agos i'w cynefin. Mae sawl rhwystr i alluogi plant i chwarae'n ddiogel, felly er mwyn galluogi hyn i ddigwydd, mae gofyn i bob asiantaeth weithio gyda'i gilydd. Ein nod ydy i Flaenau Gwent fod yn Sir lle caiff plant a phobl ifanc eu gweld yn gynyddol yn yr awyr agored yn mwynhau'r lles ddaw o chwarae.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ymdrechu i weithio ar draws y sectorau a gyda'n partneriaid, i sicrhau hawl plentyn i chwarae (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Erthygl 31) ac fe roddir ystyriaeth i ddeilliannau'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn a'u hadlewyrchu wrth ddatblygu, cynnal, hyrwyddo a gwella datblygu cyfleoedd chwarae.

Mae'r hinsawdd ar gyfer chwarae plant wedi newid yn arwyddocaol ym Mlaenau Gwent ers 2012. Hyd at 2012, roedd Gwasanaeth Chwarae'r Cyngor, a oedd yn cynnwys cynlluniau Chwarae Hamdden, wedi'u hariannu'n bennaf trwy gronfa Cymorth Llywodraeth Cymru. Rheolwyd yr agenda Chwarae ar y cyd gan Gyfarwyddiaethau Addysg a Hamdden, gan adrodd yn ôl ar eu gweithgareddau at Grŵp Nod Craidd 4 Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Ym mis Mawrth 2012, daeth ffrwd ariannu Cymorth Llywodraeth Cymru i ben a'i ddisodli gyda rhaglen ariannu newydd o'r new Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf feini prawf llym, ac wedi'i lunio i wella deilliannau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Roedd y pwyslais i fod ar atal ac ymyriad cynnar i deuluoedd, y enwedig y rhai hynny a oedd yn byw mewn tlodi. Cymharwyd yr ystyriaeth a roddwyd i gynlluniau prosiectau yn erbyn meini prawf cynllunio'r rhaglenni a ph'un ai a oedd yn addas i bwrpas yn cyflenwi yn erbyn y rhesymwaith dros ymyriad. Roedd cronfa newydd Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys elfen wedi'i glustnodi ar gyfer Anabledd. Am y ddwy flynedd gyntaf, defnyddiwyd yr elfen a glustnodwyd ar gyfer

Anabledd gan Teuluoedd yn Gyntaf i gyflenwi'r elfen Chwarae Cynhwysol. Cafodd y tîm Ceidwaid Chwarae eu diswyddo a daeth y Swyddog Datblygu Chwarae yn gydlynnydd Chwarae Cynhwysol Teuluoedd yn Gyntaf gyda rôl strategol cyffredinol dros gydlynu chwarae cynhwysol trwy'r Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd; fel canlyniad, bu llai o gydlynu Chwarae generig o fewn i'r Awdurdod gan nad oedd bellach Dîm Chwarae ledled yr Awdurdod.

Ym mis Tachwedd 2012, dechreuodd Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Roedd Adran 11 yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i asesu a, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, diogelu digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant. Roedd gofyn i Awdurdodau Lleol i gynnal Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (ADCCh) a chynlluniau gweithredu 3 mlynedd cysylltiedig, a'u cyflwyno erbyn mis Mawrth 2013. Un o brif gasgliadau sgwennu'r ADCCh oedd canfod nad oedd strwythurau / trefniadau llywodraethiant presennol ein hawdurdod ar gyfer chwarae yn gweithio'n effeithiol. Argymhellid o ADCCh 2013 oedd y dylai Chwarae ym Mlaenau Gwent gael ei osod mewn un Gyfarwyddiaeth gydag un arweinydd strategol ac Aelod Etholedig a enwebir fel Hyrwyddwr Chwarae a Phrif Swyddog yn Hyrwyddwr Chwarae. Fel canlyniad i'r argymhellion, o fis Ebrill 2014, ymgorfforwyd cylch gwaith Chwarae â'r tîm Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant a oedd ynghlwm â'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Ailstrwythurwyd Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBC GP) fel Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae (PDBC GPCh) ac ailwampwyd cyllid GCR yr Awdurdod ar gyfer Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant i gynnwys elfen ar gyfer Chwarae. Roedd casgliadau ADCCh 2013 hefyd yn nodi bod sawl asiantaeth yn cyflwyno Chwarae a llawer o gyfleoedd ar gyfer Chwarae o fewn yr Awdurdod, ond nad oedd unrhyw un yn eu hasesu, cydlynu na chynllunio. Fel canlyniad, fe gydnabuwyd nad oedd angen Tîm Chwarae ond, yn hytrach, rôl fwy strategol. Penodwyd Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ym mis Medi 2014 i ganolbwyntio ar chwarae plant oddi fewn i'r Awdurdod gyda'r nod o arwain Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cydlynu cyfleoedd chwarae a hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o hawl plentyn i chwarae, a thrwy hynny anelu at gael Blaenau Gwent yn sir chwarae -gyfeillgar lle be plant yn cael yr amser, y lle a'r hawl i chwarae.

Yn ychwanegol at y newidiadau oddi fewn i'r Awdurdod rhwng 2013-15, daeth y gymdeithas chwarae ranbarthol (Cymdeithas Chwarae'r Tair Sir), y buon ni'n cydweithio'n agos â nhw gydag Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2013, i ben ym mis Rhagfyr 2014. Canlyniad hyn oedd colli darpariaeth mynediad agored wythnosol mewn cymunedau ledled Blaenau Gwent, yn ogystal â chefnogaeth i'r Awdurdod Lleol a'n Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Cyd-destun

Fe ddylai'r adran hon ddisgrifio'r fethodoleg a ddefnyddir i ymgymryd â chymeradwyo'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu ac unrhyw ymgynghoriad gyda phartneriaid ar yr Asesiad/Cynllun Gweithredu. Fe ddylai hefyd restru'r prif bartneriaid a ymgysylltodd â'r broses a nodi unrhyw heriau ynghlwm ag ymgymryd â'r Asesiad. Fe ddylai ddisgrifio'r mecanwaith mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu'i ddefnyddio i symud ymlaen gyda'r camau a nodwyd ar gyfer y cynllun gweithredu.

Mae Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yr Awdurdod Lleol (Sharon Cargill) wedi ysgwyddo baich arwain ar ein dyletswydd digonolrwydd cyfleoedd chwarae, gyda phroses adrodd yn ôl i'r Rheolwr Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae (Claire Smith) a Ceri Bird (Rheolwr Tîm Gwasanaethau Integredig) yn ffurfio'r 'Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'. Yn ystod proses Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae fe fu'r Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n cyfarfod bob yn bythefnos/wythnos.

Er mwyn cefnogi dyletswydd yr Awdurdod Lleol, mae'r 'Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae' yn adrodd yn ôl i'r 'Grŵp Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'; dyma rôl partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae (DBCGPCh). (Mae gwybodaeth bellach am y grŵp yma i'w cael yn yr adran 'Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae').

Nododd yr Awdurdod Lleol y partneriaid allweddol er mwyn ffurfio'r 'Grŵp Llywio Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae', sydd â chylch gwaith o adrodd yn ôl ar y cynnydd yn erbyn y meini prawf ymhob un o'r meysydd materion a nodi camau i'w cymryd i wella.

Ymgymerydd â'r gwaith o gynnal a mewnosod yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gan ein Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ers dod i'r swydd ym mis Hydref 2014 trwy gynllun gweithredu 2013-2016 ac adborth o'r cyflwyniad blaenorol. Rhoddodd yr Awdurdod Lleol ystyriaeth i sut i wneud y gorau o'r ymgynghori gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a rhanddeiliaid i gynnal yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn; cytunwyd, oherwydd cyfyngiadau ar amser ac adnoddau swyddogion, i gomisiynu'r elfen hon i asiantaeth allanol, a weithiodd gyda'r Awdurdod Lleol rhwng Mehefin 2014 a Rhagfyr 2015. (Mae manylion pellach i'w cael yn y trosolwg 'ymgynghori a chyfranogi').

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cynhaliwyd cynhadledd ym mis Mai 2015. Hwyluswyd y gynhadledd gan Chwarae Cymru, gyda 67 o gynrychiolwyr yn mynychu. Canolbwyntiodd y diwrnod ar y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyda siaradwyr gwadd a chyfleoedd i ystyried sut y gallai rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo a chefnogi chwarae. (Mae manylion pellach i'w cael yn y trosolwg 'ymgynghori a chyfranogi').

Sefydlwyd llinell amser i gwblhau'r asesiad ym mis Medi 2015; cafodd ei gytuno gan y Grwpiau Gweithredu Prosiectau a Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'i weithredu gan y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. [PSA 2016\Timeline PSA 2016.pdf](#)

Defnyddiwyd dull trefnus, yn ffocysu ar bob un o'r materion unigol, ar gyfer casglu data, gan sicrhau bod unrhyw fylchau yn y data'n cael eu nodi'n gynnar fel bod modd ceisio ffynonellau eraill. Casglwyd data o wahanol adrannau a rhanddeiliaid o fis Medi i fis Rhagfyr, gydag arweinydd yn cael ei glustnodi ar gyfer pob un o'r Materion i'w hasesu.

Yn ychwanegol at y grŵp Gweithredu a Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, ceir isod restr o'r prif bartneriaid ynghlwm â chynnal yr ADCCh a'r camau a nodwyd ar gyfer y cynllun gweithredu.

Mater A:

Lynn Phillips – Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif; Andrew Parker – Polisi ac Ymchwil; Paul Jones – Gwasanaeth a Strategaeth; Matthew Lawrence – Gwasanaethau Cymdeithasol; Gill Smith - Addysg

Mater B:

Angles Consulting; Kevin Munro – Tîm lleoliadau Gwasanaethau Cymdeithasol; Matthew Lawrence – Gwasanaethau Cymdeithasol; Dave Watkins – Hamdden; Joanne Simms – Gwasanaeth Ieuencid

Mater C:

Rhiannon Perkins – Prosiect Chwarae Cynaliadwy Groundwork Cymru; Alun Watkins – Cynnal a chadw tiroedd; Alex Niell – Chwarae Plant; Joanne Simms – Gwasanaeth Ieuencid; Ross Watts – Tai Calon; Alun Reed – Yr Amgylchedd ac Adfywiad

Mater D:

Rachel Barrett – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd; Keri Sweet – Swyddog Gwella Ansawdd; Anthony Hughes - Hamdden; Karl Hale - Hamdden; Gavin Townsend - Gwasanaeth Gwybodaeth i Ieuencid; Beth Lewis - Head4Arts; Rhiannon Perkins – Prosiect Chwarae Cynaliadwy Groundwork Cymru; Alex Niell - Chwarae Plant

Mater E:

Rachel Barrett – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mater F:

Ian Cole – Priffyrdd; Angharad Barrett – Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd; Melinda Powell – Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd

Mater G:

Kara Kershaw – Swyddog Datblygu Busnes; Alex Neill – Chwarae Plant; Rachel Barrett – Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mater H :

Dave Watkins – Hamdden; Cymunedau'n Gyntaf – De: Amanda Chard; Gogledd: Rachel Chicken; Byron Jones – Hamdden

Mater I:

Ruth Parry – Teuluoedd yn Gyntaf; Sherelle Jago – Dechrau'n Deg; Dave Rees – Cyfranogiad; Steve Smith – Cynllunio; Jim Thomas – Iechyd a Diogelwch; Emma Scherptong – Partneriaeth; Peter Butcher – Trafnidiaeth; Kathryn Cross/Jennifer Evans - Iechyd

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu trwy gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid/partneriaid a nodi meysydd i'w datblygu trwy broses Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Arweinydd cyffredinol y camau a gytunwyd ydy'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a fydd yn gweithio gyda'r PDBC GPCh er mwyn dwyn ymlaen meysydd gwaith gyda phartneriaid perthnasol. Caiff y gwaith o fonitro Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ei gynnal trwy grŵp PDBC GPCh; yn ogystal â hyn, fe gaiff cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu ADCCh ei ymgorffori fel mesur perfformiad o fewn Grŵp Thematic Dysgu'r Cynllun Integredig Sengl.

Bydd copi o'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu, adroddiad cryno ac adroddiad ffeithlun hawdd ei ddefnyddio, yn nodi'r prif ddeilliannau a'r meysydd lle mae angen cymryd camau, ar gael ar wefan Blaenau Gwent i'r cyhoedd eu gweld.

Gweithio mewn partneriaeth

Fe ddylai'r adran hon ddangos i ba raddau roedd y canlynol (ac eraill) ynghlwm â'r Asesiad a datblygiad y cynllun gweithredu:

- Cyngorau Tref a Chymuned
- Mudiadau'r trydydd sector, yn enwedig cymdeithasau chwarae rhanbarthol
- Y sector preifat os yn briodol
- Grwpiau cymunedol
- Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf

Mae'r prif bartneriaid a nodir uchod yn ffurfio'r Grŵp Llywio Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyda chyfrifoldebau am ymgymryd â'r asesiad a datblygiad y cynllun gweithredu. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys trawsdoriad o Swyddogion o'r Awdurdod Lleol, y trydydd sector a phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf. Ymgwymerwyd ag ymgynghoriadau gyda grwpiau cymunedol fel eu bod yn ganolog yn y broses o asesu a nodi blaenoriaethau ar gyfer y cynllun gweithredu. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod potensial Cyngorau Tref a Chymuned i fod yn bartneriaid allweddol newydd i gynorthwyo gyda chynllunio cyfleoedd chwarae i'r dyfodol; nodwyd datblygu cysylltiadau gyda'r Cyngorau hyn fel blaenoriaeth ar gyfer blwyddyn 1 ein cynllun gweithredu.

Wynebwyd heriau wrth ymgysylltu â phartneriaid allweddol yng nghyfarfodydd y Grŵp Llywio Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, a olygodd y bu inni gyfarfod â phartneriaid allweddol yn bennaf yn unigol, yn hytrach na chynnal cyfarfodydd grŵp. Galluogodd y dull hwn inni wneud y gorau o linellau amser, effeithlonrwydd a sicrhau bod y data yn benodol ac yn cyfarfod â'r meini prawf oedd yn cael eu hasesu; golygodd y broses hefyd osgoi'r her o bobl yn ansicr dros ba rannau roedden nhw'n gyfrifol.

Partneriaeth Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae (PBCGPCh) sy'n gyfrifol am fonitro gwaith y Grŵp Llywio Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Grŵp Gweithredu Chwarae.

Mae cynrychiolaeth o'r canlynol yn y PBCGPCh: Addysg, Iechyd, Ieuencid, Hamdden, Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Gwasanaethau Cymdeithasol, Teuluoedd yn Gyntaf, Strategaeth a Pholisi, Blynnyddoedd Cynnar, mudiadau ambarél sy'n darparu Gofal Plant a Chwarae. Yn ychwanegol at y rhain ceir partneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cynnwys Cymdeithasau Tai Lleol, Ysgolion, Grwpiau Cymunedol, a phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf sydd hefyd wedi cefnogi ac ymgysylltu â dyletswydd yr Awdurdod Lleol ynghylch chwarae.

Bu Cymdeithas Chwarae'r Tair Sir yn gweithio mewn partneriaeth gyda CBSBG hyd at fis Medi 2014, yn cyflenwi sesiynau chwarae awyr agored rhad ac am ddim i holl blant rhwng 8-14 ledled Blaenau Gwent. Bu Tîm chwarae'r Tair Sir yn darparu sesiynau mynediad agored yn ystod tymor ysgol ac yn cynnig rhaglen o weithgareddau yn ystod gwyliau ysgol. Ers i'r Tair Sir gau ym mis Rhagfyr 2014, mae lefel y ddarpariaeth chwarae mynediad agored ym Mlaenau Gwent wedi lleihau'n arwyddocaol. Ceir mwy o bwyslais ar gryfhau'r berthynas gyda phlant, pobl ifanc a'r gymuned ehangach i gyfranogi'n actif i ddatblygu darpariaeth sy'n cwrdd â'u hanghenion.

Elusen chwarae i blant ydy Chwarae Plant sydd wedi'i ganoli yn RhCT ag sy'n cynnal gweithgareddau ledled De Cymru i gefnogi hawl plant i chwarae. Trwy ariannu ychwanegol 'Sicrhau Cyfleoedd Chwarae Digonol' ym mis Ionawr 2015, roedd ALI wedi gallu comisiynu Chwarae Plant o fis Mawrth 2015-2016 i gyflenwi sesiynau chwarae mynediad agored wythnosol mewn 2 leoliad i gefnogi'r Awdurdod Lleol i lenwi'r bylchau a nodwyd yn ADCCh yr Awdurdod yn 2013; ystyriwyd y meysydd hyn yn flaenoriaeth wedi i Gymdeithas Chwarae'r Tair Sir ddod i ben.

Mae Groundwork Cymru'n derbyn arian trwy Grant Cyflenwi Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru

Mae Cymru'n derbyn arian trwy Grant Cyflenwi Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru i gyflenwi sesiynau chwarae mynediad agored ledled Cymru i gefnogi agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru. Bu Groundwork Cymru'n ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol trwy'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer chwarae ledled Blaenau Gwent. Roedd cyflenwi wedi'i anelu'n bennaf at y cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth er mwyn lleihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â thlodi. Yn ogystal â gweithio gydag arweinydd chwarae'r Awdurdod Lleol, mae Groundwork Cymru hefyd wedi ymgysylltu â chymdeithasau tai lleol, Cymunedau'n Gyntaf, Ysgolion, Cynghorwyr a grwpiau cymunedol eraill, er mwyn deall anghenion chwarae plant ym Mlaenau Gwent.

Mae croeso i blant o bob oedran (0-18) fynychu sesiynau chwarae a drefnir gan Groundworks a Chwarae Plant. Mae staff cyflenwi prosiectau'n croesawu teuluoedd ac oedolion i fynychu sesiynau chwarae er mwyn rhan gwybodaeth am gyfleoedd chwarae i deuluoedd yn lleol. Mae staff prosiectau'n defnyddio'r sesiynau chwarae fel cyfle i drafod y rhwystrau i chwarae a mynd i'r afael â phryderon rheini. Yn ogystal â'r sesiynau chwarae mynediad agored, mae Groundwork Cymru'n anelu at alluogi aelodau cymunedau trwy gynnig cymunedau a mudiadau partner, gweithdai chwarae a sesiynau ymgynghorol er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o les chwarae a'r cyfleoedd sy'n agored iddyn nhw. Mae staff prosiectau wedi'u cyflogi fel gweithwyr chwarae cymwysedig. Gan ddefnyddio theori chwarae, mae sesiynau chwarae nodweddiadol yn cynnwys elfennau o natur, chwarae anturus, chwarae dramatic a chwarae rôl, y defnydd o offer, gweithgareddau tân, pridd, gwynt a dŵr, heriau corfforol a gemau. Mae prosiectau pellach wedi'u nodi o'r bartneriaeth hon a fydd yn parhau yn 2016 i 2017.

Sefydlwyd partneriaeth yn 2015 gyda Tai Calon, y landlord tai cymdeithasol mwyaf ym Mlaenau Gwent. Ym mis Gorffennaf 2015, gweithredodd Tai Calon 'egwyddorion gofod chwarae a chwaraeadwy' er mwyn darparu mannau a gofod hamdden diogel, deniadol, ansawdd uchel y gall oedolion a phlant eu mwynhau fel ei gilydd, oddi fewn i'w gymunedau. Mae Tai Calon wedi mabwysiadu dull strategol i ddatblygiad mannau adloniadol a chwaraeadwy, gan gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sef cymunedau "Iach, Cyfoethog a Doeth".

Mai gwedd strategol Tai Calon tuag at welliannau amgylcheddol yn cydnabod pwysigrwydd creu mannau agored lle mae pobl am fyw ac aros, gan ddarparu gwell ansawdd bywyd i drigolion a thrawsnewid cymdogaethau trwy gynllunio gyda golwg ar gymunedau a buddsoddi mewn pobl.

Mae Tai Calon yn cydnabod yr effaith mae cymdeithas fodern a chynllunio gwael mewn cymunedau yn ei gael ar fywydau plant, yn cyfyngu'n arw ar eu cyfle i chwarae'n rhydd o fewn eu cymunedau'u hunain ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu mannau agored 'cydadferol' lle gall plant chwarae ac aelodau eraill y gymuned fwynhau'r amgylchedd o gwmpas eu cynefin.

Mudiad Dosbarthu Nid-er-Elw ydy Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin sy'n cyflenwi gwasanaethau hamdden, dysgu a diwylliannol ledled Blaenau Gwent; mae eu tîm datblygu'r Celfyddydau a Chwaraeon yn cefnogi gweithgareddau hamdden plant a phobl ifanc trwy gyfleoedd yn canolbwyntio ar chwaraeon a'r celfyddydau. Mae prosiectau'n cynnwys Campau'r Ddraig, 5x60, GemauStryd, Ni'r Merched ac Arweinwyr Ifanc.

Mae Cymunedau'n Gyntaf yn ymgorffori 4 clwstwr ledled Blaenau Gwent, 2 ohonyn nhw (Tredegar ac Ebwy Fawr) dan reolaeth AGVO, a'r 2 arall dan reolaeth y grŵp Cydweithredol. Mae pob un o'r ardaloedd clwstwr wedi cyfrannu at gynllun Asesu a Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gydag aelodau arweiniol yn eistedd ar y PDBC GPCh.

Mae ein partneriaid wedi cynorthwyo gyda rhannu a chasglu gwybodaeth, cynnig cyngor ac arweiniad yn eu meysydd arbenigrwydd neilltuol, yn sicrhau y gall yr Awdurdod Lleol adlewyrchu ac ystyried dulliau i wneud y gorau o adnoddau a lleihau dyblygrwydd. Mae pob partner wedi cyfrannu at gynnal Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, darparu tystiolaeth a sefydlu partneriaethau effeithiol trwy waith blaenorol neu gyfredol.

Ymgynghori a chyfranogi

Mae'r adran hon yn disgrifio sut mae'r Awdurdod Lleol wedi:

- Derbyn sylwadau plant ynglŷn â'r cyfleoedd chwarae y maen nhw'n eu defnyddio ar hyn o bryd, sut y basen nhw'n hoffi'r gymuned i roi cefnogaeth well iddyn nhw chwarae
- Derbyn sylwadau ar ddarpariaeth chwarae gan rieni, teuluoedd a rhanddeiliaid eraill
- Dadansoddi'r wybodaeth a'i ddefnyddio i gyfeirio cynlluniau'r dyfodol

Ymgynghorwyd â chyfanswm o 1412 (9.19%) o blant, pobl ifanc, 75 o rieni/teuluoedd ac 89 o randdeiliaid er mwyn atgyfnerthu a chyfarwyddo'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Defnyddiwyd sawl dull o anogaeth wrth ymgynghori ac i gyfranogi.

Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol cynhadledd chwarae ym mis Mai 2015, wedi'i hwyluso gan Chwarae Cymru, yn tynnu ynghyd rhanddeiliaid/partneriaid allweddol gyda chyfle i glywed eu barn ar gyfleoedd chwarae i blant ym Mlaenau Gwent. Roedd sylwadau rhanddeiliaid yn nodi rhwystrau i chwarae a sut fyddai modd gwella cefnogaeth i chwarae ledled Blaenau Gwent. Cymerwyd cofnodion graffigol trwy gydol y dydd er mwyn nodi gwybodaeth yn uniongyrchol, a thrwy hynny osgoi unrhyw gamddehongli neu wybodaeth gamarweiniol ac fe fu hyn yn gymorth gyda'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac i atgyfnerthu'r cynllun gweithredu ar gyfer 2016/17.



[PSA 2016\Play Wales - 'A Play Friendly County' Conference report 2015.pdf](#).

Cafodd nifer o ddiwyddiadau cymunedol gefnogaeth y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, gan gynnwys Diwrnod Chwarae

Cenedlaethol ar ddydd Mercher, Awst 5^{ed}, 2015 gyda 297 o blant a theuluoedd yn bresennol, yn rhoi cyfle i ymgymryd ag ymgynghoriad anffurfiol gyda phlant a'u teuluoedd. Cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru eu digwyddiad 'Dewch Allan', lle cynhaliwyd stondin a gweithgarwch gwybodaeth er mwyn nodi pa weithgareddau roedd plant yn eu mwynhau yn eu hamser sbâr. Cafwyd adborth hefyd gan blant a'u teuluoedd trwy sesiynau chwarae mynediad agored gan Chwarae Plant a Phrosiect Chwarae Cynaliadwy Groundworks.

Mynychodd y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Fforymau Rhieni a gynhaliwyd gan Dechrau'n Deg a chafodd ei wahodd hefyd i gyfarfod Rhwydwaith Gofalwyr Maeth er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â chwarae, nodi bylchau a darparu cyfle i drafod rhwystrau posib i chwarae mewn cymunedau lleol.

Mae'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi sefydlu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid allweddol ledled Blaenau Gwent er mwyn lleihau dyblygu, gwneud y gorau o'r adnoddau ac i hyrwyddo hawl plant i chwarae. Bu'r gofyniad i gasglu tystiolaeth i gefnogi'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn yn gyfrwng i sicrhau bod ein partneriaid wedi cael y cyfle i gyfrannu. Fe gydnabyddir bod hyn am fod yn rhywbeth parhaus er mwyn sicrhau y caiff chwarae yr ystyriaeth mewn cynlluniau cyflenwi ac wrth gydlynw gweithgareddau a chyfleoedd.

Comisiynodd yr Awdurdod Lleol Angles Consulting rhwng misoedd Ebrill a Rhagfyr 2015 i ymgynghori ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ym Mlaenau Gwent. Mae'r gofynion ar gyfer y darn yma o waith fel a ganlyn:

- I sicrhau y rhoddir ystyriaeth i sylwadau plant a phobl ifanc wrth gyfarfod â'n dyletswydd digonolrwydd cyfleoedd chwarae tra'n ymgymryd ag adlewyrchiad cywir o anghenion a diddordebau chwarae ledled Blaenau Gwent.*
- Bydd angen dyfeisio a gweithredu amrywiaeth o ddulliau ymgynghori gyda mecanweithiau adrodd-yn-ôl effeithiol – bydd gofyn cael adroddiad ysgrifenedig ar diwedd gyda thystiolaeth o'r wybodaeth a gasglwyd, a fydd yn cynnwys:*
- Yr ymgynghoriad i gynnwys grwpiau megis:*
 - Teithwyr sipiwn, ffoaduriaid a cheiswyr lloches*
 - Plant anabl*
 - Plant Cymraeg eu hiaith*
 - Cymunedau gwledig diarffordd*
 - LHD – Lesbiaidd, hoyw a deurywiol GB – Lesbian, gay and bisexual*

Cynhaliwyd ymgynghoriad ledled yr Awdurdod Lleol i gefnogi anghenion amrywiol plant a'u teuluoedd trwy ddefnyddio amrediad o ddulliau ymgynghori gan gynnwys arolygon ar-lein, holiaduron, cyfweiliadau wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws a gweithgareddau. Ymgwymerwyd â

chasglu data ar yr un pryd er mwyn hwyluso'r dadansoddi a'r casgliadau/argymhellion.

Gwahoddwyd penaeithiaid ysgolion i gyfranogi mewn cyfweiliad wyneb yn wyneb/ffôn a chafwyd ymateb gan 62.5% ohonyn nhw. Gwahoddwyd plant hefyd i gyfranogi mewn ymarferiad cylch amser i archwilio chwarae gyda phlant ledled ystod o grwpiau oedran. Darparwyd canllawiau testun gan weithwyr proffesiynol lle nad oedd yr ymchwilwyr yn bresennol, er mwyn helpu gyda thrafodaethau ac i gofnodi gwybodaeth. Trefnwyd hefyd ymweliadau â darpariaethau chwarae lle darparwyd camerâu i blant er mwyn iddyn nhw gyfleu eu hoffter neu fel arall o ran y gweithgareddau a ddarperir ac i hybu trafodaeth.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd gan Angles Consulting wedi ei ddadansoddi a'i gyflwyno i'r Awdurdod Lleol ar ffurf adroddiad yn dangos methodoleg, deilliannau ac argymhellion yn rhagflaenol i'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Rhoddwyd ystyriaeth i'r argymhellion o'r broses ymgynghorol a'u blaenoriaethu i gyfarwyddo ein cynllun gweithredu ar gyfer 2016. [PSA 2016\Research into Play Report 2016.pdf](#)

Cynhaliwyd grwpiau ffocws pellach gan y tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae gyda: siaradwyr Cymraeg, plant yn byw mewn ardaloedd gwledig diarffordd, plant sy'n derbyn gofal a phlant anabl.

Cafodd arolygon a dolenni i arolygon ar-lein hefyd eu dosbarthu i asiantaethau partner allanol a'u danfon trwy e-bost at holl staff ar e-bost o fewn i Gyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent; yn ychwanegol at hyn, postwyd dolenni ar y cyfryngau cymdeithasol trwy Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Blaenau Gwent a'u danfon allan trwy'r cylchlythyr corfforaethol er mwyn ehangu'r gorwelion a gwella cyfraddau ymateb.

Mae ein partneriaid darparu chwarae, Groundwork Cymru a Chwarae Plant, wedi ceisio adborth a barn holl deuluoedd a phlant a rhanddeiliaid eraill sydd wedi mynychu sesiynau chwarae ym Mlaenau Gwent. Mae hyn wedi cynnwys sylwadau ar gyfleoedd chwarae, cost, gweithgareddau a gynigir, a rhwystrau i chwarae. Mae Groundwork Cymru hefyd wedi cynnal gweithdai i gymunedau ym Mlaenau Gwent er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth ynglŷn â sut mae rhieni a rhanddeiliaid yn gweld cyfleoedd chwarae yn eu cymunedau.

Gwneud y gorau o adnoddau

Fe ddylai'r adran hon ddarparu trosolwg ynglŷn â sut mae partneriaid yn defnyddio eu cyllid presennol ar hyn o bryd i gefnogi mynediad plant i gyfleoedd chwarae. Fe ddylai ganfod a nodi sut mae cyllidebau wedi eu blaenoriaethu fel rhan o Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chynlluniau dilynol.

Defnyddiwch yr adran hon i ddangos beth sydd wedi newid ers Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2013 yn nhermau sut mae adnoddau'n cael eu clustnodi.

Cofiwch hefyd ddangos sut mae rhaglenni Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio'n lleol i ddarparu chwarae a sut maen nhw wedi mynd i'r afael â blaenoriaethau o'ch asesiad digonolrwydd cyfleoedd chwarae o 2013:

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ail-flaenoriaethu ei Grant Cynnal Refeniw i ariannu rôl Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, gan leihau'r ansicrwydd y byddai'r agenda chwarae'n cael ei effeithio trwy leihau neu ddiddymu grantiau penodol.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod allan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi mewn plant. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth statudol gyda golwg ar chwarae o dan adran 11 a chyfranogiad ymysg agendâu eraill. Pan gyhoeddwyd y Dyletswydd i Chwarae, ysgrifennodd Rheolwr y Gwasanaethau Integredig i Blant a Theuluoedd at y Dirprwy Weinidog i wneud cais am gyllid ychwanegol i gyfarfod â'r dyletswyddau. Daeth yr ymateb yn hysbysu'r ALI na fyddai unrhyw gyllid ychwanegol ond yn hytrach yn cyfeirio'r ALI at ffrydiau presennol o ariannu sydd wedi'i anelu at Taclo Tlodi, megis Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau'n Gyntaf. Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol at gyfer cyfleoedd Chwarae i Blant. Dyrannwyd £33,539.00 i'r Awdurdod Lleol, yn eu galluogi i ddatblygu 6 maes blaenoriaeth i gefnogi a hyrwyddo chwarae plant - [PSA 2016\SSPO report on use 2014 - 15.pdf](#) <.././.././cook_d1/AppData/Local/Microsoft/Windows/Temporary Internet Files/Content.Outlook/HBP61VZV/PSA 2016/SSPO report on use 2014 - 15.pdf>

Teuluoedd yn Gyntaf

Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn eistedd oddi fewn i'r Tîm Gwasanaethau Integredig ym Mlaenau Gwent. Mae hyn yn darparu cydleoliad timau a pherthynas waith agos gan gynnwys systemau rheoli integredig. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cael eu cynrychioli ar Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ac mae hyn yn helpu sicrhau ffocws parhaus ar ddarpariaeth chwarae ym Mlaenau Gwent. Mae'r system atgyfeirio at Teuluoedd yn Gyntaf yn hwyluso amlygiad cynnar anghenion ynghylch mynediad i gyfleoedd chwarae cynhwysol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r staff yn gweithredu o fewn model lleoliad sy'n sicrhau bod eu gwybodaeth leol

am ddarpariaeth chwarae a gwasanaethau i deuluoedd yn gyfredol.

Mae model cyflenwi Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu nifer o gyfleoedd i hyrwyddo chwarae o fewn Blaenau Gwent. Mae rhaglen Rianta'r Blynnyddoedd Rhyfeddol yn neilltuo sesiwn i 'Pwysigrwydd Chwarae' ac yn yr un modd, mae deunydd cyflenwi Parent Line Plus yn cynnwys 'Dewch inni Chwarae'. Mae hyn yn darparu rhianta gyda seiliau egwyddorion chwarae ac yn caniatáu'r cyfle i gyfeirio at ddarpariaeth chwarae o fewn cymunedau lleol. Mae cyflenwi hefyd yn cynnwys PX2 - codi dyheadau i bobl ifanc. Mae'n gweithredu yn ysgolion uwchradd Blaenau Gwent lle gaiff pobl ifanc eu cefnogi i gael mynediad i gyfleoedd chwarae a hamdden mewn amgylchfyd ysgol a hefyd i gael mynediad i ddarpariaeth y tu allan i ysgol. Mae elfen ieuenctid Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys 5 gweithiwr cymorth, yn hwyluso gwasanaeth misol 'Agored i Ieuenctid' sy'n darparu cyfleoedd hamdden rhad ac am ddim i bobl ifanc o fewn canolfannau hamdden lleol ledled yr Awdurdod.

Mae elfen anabledd y rhaglen yn cael ei hwyluso gan dîm o 4 gweithiwr cymorth gydag £148mil o gostau'r rhaglen wedi'i ddiogelu o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru. Nodir anghenion i blant anabl mewn perthynas â chwarae adeg atgyfeirio; mae gan y tîm wybodaeth a chysylltiadau eang yn lleol am wasanaethau a darparwyr cyfleoedd chwarae a hamdden i blant anabl. Mae'r tîm yn cadw cyswllt agos â Thîm Anabledd y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn cynnig gwybodaeth gyfeiriol ar sail mynediad agored. Mae'r tîm hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid megis Barnardos, sy'n cynnig y cynllun 'Mynediad i Hamdden' a gomisiynir oddi fewn i Wasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent. Mae adnabod ac atgyfeirio cynnar yn sicrhau bod plant sydd angen cymorth i gael mynediad i ddarpariaeth chwarae a hamdden yn cael ei ariannu a'i gaffael yn briodol.

Mae tîm Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu a chefnogi ystod o ddigwyddiadau cymunedol trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cefnogi Diwrnod Chwarae Cenedlaethol, digwyddiadau Cymunedau'n Gyntaf, ffeiriau ysgol a rhaglenni gweithgareddau hanner tymor a gwyliau haf. Mae hyn yn darparu dull cyfredol i hyrwyddo chwarae o fewn i Teuluoedd yn Gyntaf sy'n cyrraedd ystod o bartneriaid a chymunedau.

Dechrau'n Deg

Mae rhaglen Dechrau'n Deg hefyd yn eistedd oddi fewn i Dîm Gwasanaethau Integredig Blaenau Gwent, ac yn cydategu'n llawn â'r agenda chwarae. Mae cynlluniau cyflenwi a gwasanaethau Dechrau'n Deg yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu at ddarpariaeth cyfleoedd chwarae cyfoethog trwy bob un o 4 elfen graidd y rhaglen fel y gwelir isod:

Gofal plant ansawdd uchel, rhad ac am ddim: Yn y tymor cyn bod plentyn yn gymwys ar gyfer gofal plant, mae Dechrau'n Deg yn darparu: Sesiynau "Chwarae, Dysgu a Thyfu", fel modd pontio rhwng y cartref a gofal plant. Mae pob plentyn Dechrau'n Deg sy'n gymwys yn cael cynnig lleoliad gofal plant rhan amser rhad ac am ddim (2.5 awr y dydd, 5 niwrnod yr wythnos) o'r tymor ysgol yn dilyn eu 2ail ben-blwydd hyd at y tymor pan fydden nhw'n dathlu eu 3ydd pen-blwydd. Mae holl Ofal Plant Dechrau'n De gyn cael ei ddarparu trwy leoliadau

ansawdd uchel ac yn gweithredu ar sail “dysgu trwy chwarae”. Mae staff cymwys a phrofiadol yn ymgysylltu â'r plant ar raddfa 1:4. Fel rhan o asesiadau datblygol pob plentyn, fe fydd staff yn gweithredu CChU (Cynllun Chwarae Unigol) i'r plant hynny sydd y tu allan i'w datblygiad cyffredinol. Caiff y CChU eu gosod a'u monitro bob yn hanner tymor gan staff gofal plant. Mae Athro/Athrawes Ymgynghorol Dechrau'n De gyn monitro CChU er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gosod a bod targedau'n cael eu hateb.

Mae i bob lleoliad Gofal Plant Dechrau'n Deg gyfleusterau chwarae dan do ac awyr agored wedi'u cynllunio'n bwrpasol gyda meysydd dysgu penodol wedi'i dynodi trwy'r amgylchfyd gofal plant er mwyn gwneud y gorau o ddysgu trwy gyfleoedd chwarae.

Gwasanaeth Ymweliadau Iechyd Manylach: Mae'r Tîm Iechyd yn darparu ystod o wasanaethau yn y Bwrdeisdref Sirol. Mae'r rhaglenni a'r gwasanaethau mewn perthynas â chwarae yn cynnwys Ymweliadau Plant Bach Iach, Tyllino Babanod, sesiynau HENRY trwy gyflenwi yn y cartref (Iechyd, Ymarfer a Maeth yn y Rhai Ifanc lawn), a sesiynau Pwyso a Chwarae Babanod a Rhai Bach a ddarperir yng nghanolfannau Dechrau'n Deg.

Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu: Mae llwybr iaith Gynnar cynhwysfawr wedi'i weithredu ym Mlaenau Gwent, yn nodi dull systematig o gefnogi ymgysylltu teuluoedd â rhaglenni iaith, lleferydd a chyfathrebu trwy'r Blynnyddoedd Cynnar. Mae Dechrau'n Deg wedi galluogi gwasanaethau i amrywio ac arbenigo. Mae rhaglenni a gyflenwir i blant 0-4 oed sydd wedi'u cysylltu'n anorfod â chwarae yn cynnwys Talking Tots, LEAP Iaith, Ymarfer a Chwarae, Baby LAP (Iaith a Chwarae) a NAP (Rhif a Chwarae), Toddler LAP a NAP a rhaglen NAP estynedig er mwyn ymgysylltu â'r teuluoedd anoddaf eu cyrraedd Yn yr un modd, bydd y modelau cyflenwi yn y cartref yn parhau i fod yn elfen angenrheidiol ar gyfer y Tîm Blynnyddoedd Cynnar, gan eu galluogi i lunio ac addasu rhaglenni fel bo'r angen a chyrraedd teuluoedd sy'n methu neu'n anfodlon ymgysylltu o fewn lleoliadau cymunedol.

Cymorth gyda Rhianta: Mae pob rhiant Dechrau'n Deg yn cael cynnig rhaglen rhianta ffurfiol o leiaf 3 gwaith y flwyddyn. Caiff y rhaglenni eu cynnal yn bennaf yng Nghanolfannau Dechrau'n Deg, ond os oes rhwystrau i gyfranogi, bydd staff yn cyflenwi o fewn i leoliad y cartref. Mae i bob rhaglen rhiant ffocws ar ryngweithio oedolyn a phlentyn lle defnyddir “chwarae” fel edefyn sylfaenol trwy gydol y rhaglenni. Dydy dysgu chwarae gyda'ch plentyn ddim yn dod yn naturiol i rai rhieni, ac mae Dechrau'n Deg yn darparu'r wybodaeth a'r profiad er mwyn cyfarwyddo rhieni o holl ddeilliannau positif chwarae, ac felly ei bwysigrwydd. Dyma rai o'r rhaglenni rhianta a ddefnyddiwyd a oedd yn ymwneud â phwysigrwydd chwarae: PAFT (Rhieni fel Athrawon Cyntaf), Ystod y Blynnyddoedd Rhyfeddol (Babanod, Plant Bach a Sylfaenol) (Ffurfiol), Rhaglen Meithrin Cysylltiadau Teuluol (Ffurfiol), Croeso i'r Byd (Anffurfiol), Bywydau Teuluol, ystod o rhaglenni a gweithdai (Anffurfiol) a hefyd ymyriadau arbennig (Anffurfiol).

Mae Groundwork Cymru wedi cyflenwi Chwarae Cynaliadwy, wedi'i ariannu trwy Grant Cyflenwi Plant a Tehuluoedd Llywodraeth Cymru mewn cymunedau ym Mlaenau Gwent yn ystod 2015 a 2016; bydd y cymorth yma'n parhau yn 2016.

Mewn prosiect peilot yn Roseheyworth, fe welwyd y Tîm Chwarae, Cymunedau'n Gyntaf, Yr Ymddiriedolaeth Hamdden ac Ysgol Gynradd Roseheyworth yn rhannu adnoddau er mwyn cyflenwi prosiect chwarae teuluol. Yn ystod fforwm rhianta, nodwyd diffyg cyfleoedd i rai rhwng 3-7 oed gan rieni lleol o fewn ardal Roseheyworth a oedd eisoes wedi eu nodi yn yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae blaenorol. Er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch yma cynhaliodd Clwstwr De Ebwy Fach Cymunedau'n Gyntaf (CDEF CG) drafodaethau gyda

Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Blaenau Gwent er mwyn treialu nifer o sesiynau haf i deuluoedd gan gynnwys Diwrnod Chwarae Cenedlaethol ym Mharc Bryn Bach. Daeth 55 o deuluoedd i'r sesiynau hyn ac roedd yr adborth llafar o'r sesiynau hyn yn bositif iawn, gyda theuluoedd yn datgan gwerthfawrogiad o'r cyfle i dreulio amser ynghyd, ymwneud â gweithgareddau chwarae a mwynhau'r awyr agored ar eu stepan drws. Cychwynnodd y prosiect ym mis Tachwedd 2015 a bydd yn parhau hyd at Wyliau'r Pasg 2016, pan gaiff ei adolygu. Bydd ail gam y prosiect gobeithio yn nodi gwirfoddolwyr i gefnogi datblygu a chyflenwi'r prosiect hwn a bydd yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer achrediad.

Yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Integredig Sengl

Fe ddylai'r adran hon nodi sut mae'r Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ffurfio rhan o'r asesiad anghenion lleol ac i ba raddau mae'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu wedi'u hintegreiddio i mewn i gynllunio, gweithredu ac adolygu'r Cynllun Integredig Sengl.

Yn 2012, rhoddodd Llywodraeth Cymru her i Awdurdodau Lleol ledled Cymru, erbyn mis Ebrill 2013, i wella'r ffordd roedden nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wella'r ardal leol. Yr her oedd datblygu cynllun unigol i weithio fel partneriaeth, a elwir y Cynllun Integredig Sengl (CIS), ac i symleiddio'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Y disgwyliad oedd y byddai CIS pob awdurdod lleol yn disodli'r cynlluniau partneriaeth blaenorol, o ba rai yr oedd o leiaf bedwar (heb gyfrif Cynlluniau Datblygu Lleol), ac i symleiddio'r trefniadau partneriaethau ardal leol i'r hanner fan leiaf.

Y weledigaeth gyffredinol i Flaenau Gwent o'r Cynllun Cymunedol cyn ei ddisodli oedd "Blaenau Gwent, lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld". Yn ogystal â'r weledigaeth gyffredinol hon, mabwysiadodd y Cynllun Integredig Sengl Newydd "10 deiliant lefel uchel i Flaenau Gwent erbyn 2030", a ddatblygwyd o'r Strategaeth Gymunedol: Gwneud Gwahaniaeth: Y cynllun mawr 20 mlynedd i Flaenau Gwent 2010-2030. Cafodd Asesiad Anghenion Strategol Blaenau Gwent hefyd ei ddatblygu trwy ddilyn deg deiliant drafft poblogaeth hirdymor Strategaeth Gymunedol Blaenau Gwent. Mae chwarae yn cael ei grybwyll ym Mhennod 6 - Dysgu - Asesiad Anghenion Strategol Blaenau Gwent.

Yn dilyn llunio Asesiad Anghenion Strategol, sefydlwyd pedwar prif grŵp thematig i oruchwylio cyflenwi a chyflawni deilliannau lefel uchel y Cynlluniau Integredig Sengl:

- *Ffyniannus a Bywiog*
- *Iach*
- *Teg a Diogel*

- *Dysgu*

O dan y grŵp thematig Dysgu ceir y prif feysydd canlynol:

- *Blynyddoedd a Chwarae*
- *Cyrhaeddiad Ysgol*
- *Dysgu Oedolion*

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chynllun gweithredu cysylltiedig 2013-2016 yn flaenoriaeth ym maes Blynyddoedd Cynnar a Chwarae y Grŵp Thematig Dysgu ac mae'i weithredoedd yn cael eu monitro'n strategol trwy gyfarfodydd chwarterol a Chronfa Ddata Rheoli Perfformiad y Cynllun Integredig Sengl. Mae Partneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Blaenau Gwent yn monitro'r cynllun gweithredu ar lefel weithrediadol ac yn cymryd rôl weithredol wrth gywiro diffygion a datrys problemau i ddatod unrhyw rwystrau i gyrraedd y nod.

Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Fe ddylai'r adran hon nodi'r prif gyfarwyddwr a'r aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Fe ddylai hefyd ddisgrifio'r Grŵp Monitro Chwarae neu'r hyn sy'n cyfateb. Ynghyd â rhestr o aelodau, disgrifiwch sut mae'r grŵp wedi'i hyrwyddo a manteision a heriau'r grŵp.

Mae'r cyfrifoldeb am Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn gorwedd gydag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Blaenau Gwent ac yn ffurfio rhan o'r Tîm Gwasanaethau Plant dan arweiniad Tanya Evans (Pennaeth Gwasanaethau Plant). Pleidiwr Chwarae'r Awdurdod Lleol ydy Liz Majer, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Aelod Arweiniol Blaenau Gwent ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ydy'r Cynghorydd Haydn Trollope.

Mae'r Grŵp Gweithredu Chwarae dan oruchwyliaeth PDBC GPCh (Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae). Mae'r PDBC GPCh yn bartneriaeth wirfoddol/statudol sy'n ymgorffori 60 o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn neu'n

gweithio yn sector Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Adolygwyd aelodaeth PDBC GPCh yn 2015 i gynnwys Rheolwyr a fyddai'n medru adrodd yn ôl am gamau lefel uchel a materion o bryder.

PDBC GPCh (Grŵp Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae) fel ag a restrir isod:


<i>Ceri Bird – Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant a Theuluoedd)</i>	<i>Alison Williams – Therapydd Iaith a Lleferydd</i>	<i>Karen Bennett – Addysg oedolion</i>
<i>Sharon Cargill – Gwasanaethau Cymdeithasol (SDCCh)</i>	<i>Andrew Bevan – Yr Amgylchedd ac Adfywiad</i>	<i>Mary Eaton – CDC-y Cymru</i>
<i>Claire Smith - Gwasanaethau Cymdeithasol (PDBC GPCh)</i>	<i>Amanda Chard – CG (De)</i>	<i>Rhian Padfield – CG (Glyn Ebwy)</i>
<i>Tanya Evans - Gwasanaethau Cymdeithasol</i>	<i>Byron Jones – Hamdden Aneurin</i>	<i>Ruth Parry - Gwasanaethau Cymdeithasol (TG)</i>
<i>Jennifer Lenczner – Gwasanaeth Ymgynghori ar Addysg</i>	<i>Debra Winney – NDNA (Cadeirydd)</i>	<i>Sherelle Jago - Gwasanaethau Cymdeithasol (DD)</i>
<i>Kara Kershaw – Gwasanaethau Cymdeithasol (SDB) (PDBC GPCh)</i>	<i>Emma Morgan – Cydlynnydd Home-start</i>	<i>Stephanie Peters (Iaith a Lleferydd Aneurin Bevan)</i>
<i>Kath Cross – Bwrdd Iechyd Cyhoeddus</i>	<i>Emma Scherptong – Partneriaethau Cefnogi BG</i>	<i>Tania Hayward - Gwasanaethau Cymdeithasol (Rhianta DD)</i>
<i>Lee McPherson – CG Tredegar</i>	<i>Gail Powell – Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan</i>	<i>Alun Williams - Addysg</i>
<i>Rachel Barrett - Gwasanaethau Cymdeithasol (GGD)</i>	<i>Gavin Metherringham – Addysg a Hamdden Gynhwysol</i>	<i>Nigella McKenzie - AGC</i>
<i>Shan Palmeria – Ysgolion Iach</i>	<i>Huw Lewis - CMGG</i>	<i>Bridie Samways – Iechyd (Potage)</i>
<i>Carolyn Key – CDC-y Cymru</i>	<i>Joanne Sims – Gwasanaeth Addysg Ieuencid</i>	<i>Sandra Taylor – Coleg Gwent (Iechyd a Gofal Cymdeithasol)</i>
<i>Sue Scully – Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan</i>	<i>Hannah Dyer - Gwasanaethau Cymdeithasol (Iaith a Chwarae)</i>	<i>Dean Taylor- Pennaeth Ysgol Gynradd Abertyleri</i>
<i>Judith Neads - Gwasanaethau Cymdeithasol (TYBC)</i>	<i>Natalie Hares - Gwasanaethau Cymdeithasol (Cydlynnydd Gofal Plant)</i>	<i>Ceri Waters – Aneurin Leisure (Adult Ed)</i>

<i>Jane Baker – Iechyd y Geg</i>	<i>Nicola Somerville - Yr Amgylchedd ac Adfywiad</i>	<i>Keri Sweet - Gwasanaethau Cymdeithasol (Childcare Quality)</i>
<i>Kate James - Gwasanaethau Cymdeithasol (Rheolwr Busnes)</i>	<i>Rachel Chicken - CMGG</i>	<i>Linzi Tamplin - Gwasanaethau Cymdeithasol (GGD)</i>
<i>Jan Walsh – CG (Abertyleri)</i>	<i>Rebecca Foster - Addysg (Seicoleg)</i>	<i>Lyn Francis – CPCKC</i>

Mae'r grŵp yn cynnig amrediad eang o wybodaeth ac arbenigedd o bob rhan o'r sector plant o'r ochr wirfoddol yn ogystal â'r ochr statudol ym Mlaenau Gwent. Gyda phartneriaeth aml-sgil, gall y grŵp gefnogi, hyrwyddo a monitro'r ddyletswydd digonolrwydd cyfleoedd chwarae trwy rannu gwybodaeth, cynnig cyngor ac arweiniad, cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a chodi ymwybyddiaeth o hawl plentyn i chwarae o fewn eu hardaloedd gwaith penodol eu hunain.

Mae'r PDBCGPCh yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r cyfle yn y cyfamser i gysylltu â'r grŵp, fel grŵp, trwy e-bost neu yn unigol. Yn ystod cyfarfodydd, mae'r PDBCGPCh yn canolbwyntio ar gamau allweddol o Gynllun Integredig Sengl Blaenau Gwent – mae chwarae wedi'i osod yn thema 2 (Cymunedau'n Dysgu) ac mae gwybodaeth yn ymwneud â Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yna'n cael ei ffrydio trwy Reolwr Tîm Gwasanaeth Integredig.

Yn ychwanegol at y monitro grŵp gan PDBCGPCh, mae'r broses ganlynol yn dangos y mecanwaith cyffredinol sy'n diogelu monitro dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ledled yr awdurdod lleol:



Colofn Meini Prawf: yn gosod allan y data sydd angen bod ar gael a'r graddau y mae'r Awdurdodau Lleol yn ateb gofynion y meini prawf a nodir.

Colofn statws CAG: yn darparu dewislen, lle caiff yr Awdurdod Lleol ddangos ei asesiad ynglŷn â ph'un ai ei fod y maen prawf hwnnw wedi'i gyflawni'n llawn, yn rhannol, neu heb ei gyflawni. Mae nodwyr Coch, Ambr a Gwyrdd wedi'u rhoi i'r rhain, sy'n ymddangos fel geiriau yn y dewislenni.

Teclyn ydy statws Coch, Ambr a Gwyrdd (CAG) i gyfathrebu statws yn sydyn ac yn effeithiol.

Statws CAG

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	Cyflawnwyd yn llawn
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	Cyflawnwyd yn rhannol
Meini prawf heb eu cyflawni.	Heb eu cyflawni

Y golofn Tystiolaeth i gefnogi cryfderau: i'w defnyddio i ddarparu rheswm am y statws meini prawf a ddewisir a sut mae'r dystiolaeth yn cael ei ddal.

Y golofn Diffyg: i'w defnyddio i esbonio'r meysydd lle nad ydy'r Awdurdod Lleol yn cyflawni'r meini prawf yn llawn.

Y golofn Cynllun cam am Gam a Nodir: i'w defnyddio i ddangos blaenoriaethau cynllun gweithredu'r Awdurdod Lleol ar gyfer y Mater hwnnw.

Dylai'r patrymlun gael ei fonitro gan y swyddog sy'n cydlynu'r Asesiad a'i adolygu'n rheolaidd gan y Grŵp Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Mater A: Poblogaeth

Fe ddylai'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyflwyno data ynglŷn â'r nifer o blant sy'n byw o fewn yr Awdurdod Lleol er mwyn caniatáu asesiad o'u hanghenion chwarae posib. Dylai'r data ddarparu gwybodaeth am y nifer o blant yn y gwahanol gategoriâu a alla effeithio ar eu hanghenion chwarae. Dylai'r data hefyd ddangos os ydy'r ardal wedi'i ddynodi yn un dan anfantais/difreintiedig a ph'un ai a oes rhagamcaniad poblogaeth 5 mlynedd ar gael.

Statws CAG

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	
Meini prawf heb eu cyflawni.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae data ar gael wedi'i ddadelfennu yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (ACEI)			Cwblhawyd proffiliau ACEI ar gyfer ADCCh		Archwilio lles cofrestr ganolog ar gyfer plant anabl gyda chydweithwyr o adrannau eraill er mwyn gwneud y gorau o adnoddau a lleihau dyblygu.
Mae data diweddar ar gael ar gyfer oedrannau:			Mae'r data yma ar gael trwy PLASC (Ion 2015) a ffynonellau data SYG (Cyfrifiad 2011)		
0-3					
4-7					
8-12					
13-15					
16-17					

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae cofnod diweddar o'r nifer o blant anabl ymhob grŵp oedran			Mae Cofrestr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu data. Mae gan CSA ddata am y nifer o blant a gofnodir ar system cefnogi anghenion arbennig.	Anodd cael data manwl-gywir. Dim diffiniad clir o anabledd. . Datganiad anghenion addysg ydy PLASC Dydy'r Gofrestr gan GC ddim ond os ydyn nhw ar hyn o bryd yn derbyn gofal gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac felly bylchau yn y data	
Mae gwybodaeth ddiweddar ynglŷn â'r nifer o blant y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddyn nhw neu sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg			Mae'r data hwn ar gael trwy Gyfrifiad 2011		
Mae gwybodaeth ddiweddar ynglŷn â ffactorau diwylliannol eraill a gofnodir, gan gynnwys ieithoedd eraill, a phlant teithwyr sipsiwn			PLASC data 2015 a Chyfrifiad 2011	Tangyfrif posib – gall bod rhai rhieni'n anfodlon dweud ar PLASC os ydy eu plentyn o gefndir Teithiwr Sipsiwn	

Sylwadau Cyffredinol: Mesurau Poblogaeth

Sut mae/fydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio ei data poblogaeth i gynllunio ar gyfer digon o gyfleoedd chwarae yn lleol?

Mae data poblogaeth yn cael ei gasglu ynghyd i gynhyrchu cynrychiolaeth o boblogaeth i asesu anghenion chwarae ym Mlaenau Gwent. Cesglir data ar bedair lefel ddaearyddol:

- 1) Awdurdod Lleol
- 2) Pob un o'r pedwar Cwm ym Mlaenau Gwent a ddefnyddir at bwrpasau cynllunio, e.e. Cwm Ebwy Fach Uchaf, Cwm Ebwy Fawr, Cwm Sirhywi a Chwm Ebwy Fach Isaf
- 3) Ward etholiadol
- 4) Lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Is

I bwrpas dadansoddiad ADCCh mae proffil ward wedi'i gasglu i gynorthwyo'r ALI i nodi lle bo cyfleoedd chwarae fwyaf eu hangen, gan adnabod grwpiau allweddol o blant a phobl ifanc. Caiff y data hwn hefyd ei ddefnyddio i ddatblygu mecanwaith ymgynghori cadarn er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynyddu ein hymgyngghori gyda phlant a phobl ifanc ac i hyrwyddo ymgysylltu yn natblygiad darpariaeth chwarae yn y dyfodol.


Mae'r data poblogaeth yn ategu ac yn gyflenwol i ffynonellau eraill o dystiolaeth (darparwyr chwarae/gofodau chwarae/lleoedd chwarae ayyb) er mwyn adnabod bylchau yn y ddarpariaeth ac i gynorthwyo wrth gynllunio a datblygu darpariaeth chwarae. Mae'r wybodaeth ar gael i holl bartneriaid, sefydliadau, rhanddeiliaid ledled Blaenau Gwent trwy ein Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae er mwyn lleihau dyblygu, gwneud y gorau adnoddau a sicrhau bod cyfleoedd chwarae'n cwrdd â'r anghenion mwyaf. [PSA 2016\Population.pdf](#) <.././././cook_d1/AppData/Local/Microsoft/Windows/Temporary Internet Files/Content.Outlook/HBP61VZV/PSA 2016/Population.pdf>

Mater B: Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol

Dylai'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyflwyno data ynglŷn â sut mae'r Awdurdod Lleol a phartneriaid yn bwriadu cynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog plant i chwarae a chwrdd â'i gilydd.

Statws CAG:

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	
Meini prawf heb eu cyflawni.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae anghenion plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig diarffordd wedi'u deall ac mae darpariaeth ar eu cyfer			Dydy Blaenau Gwent ddim wedi'i ddynodi'n ardal wledig er bod gynnon ni bocedi gwledig fel y nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol yr ALL: • Trefil • Bedwellte Pits • Pochin • Cwm. Ymgwymerwyd ag ymgynghoriad gyda phlant o Drefil er mwyn nodi eu hanghenion chwarae.	Ymgynghorwyd yn benodol â dim ond un grŵp mewn un ardal wledig.	Ymgymryd ag ymgynghoriad pellach â phlant mewn ardaloedd gwledig eraill er mwyn gwella dealltwriaeth o faterion posib. Ymgynghorwch Adennill eich Parc i'w lansio yn 2016 er mwyn annog mwy o ddefnydd o fannau Chwarae.
Mae anghenion plant sy'n siarad Cymraeg wedi'u deall ac mae darpariaeth ar eu cyfer			Mae ymgynghoriad penodol wedi'i gynnal gydag ysgol gynradd Gymraeg yr Awdurdod - Ysgol Gymraeg Bro Helyg, ym mis Medi 2015.		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			Mae sesiynau chwarae Groundwork Cymru yn cael eu cynnig yn ddwyieithog.		
Mae anghenion plant o wahanol gefndiroedd diwylliannol wedi'u deall ac mae darpariaeth ar eu cyfer			Mae cyflenwi Groundwork Cymru a Chwarae Plant yn llwyr gynhwysol i blant o bob cefndir diwylliannol. Mae rhaglen Sicrwydd Ansawdd yr ALI yn gwerthuso, monitro ac yn cydnabod anghenion chwarae i gefnogi plant o wahanol gefndiroedd diwylliannol.		
Mae gofynion chwarae ac anghenion cymorth plant anabl wedi'u deall ac mae darpariaeth ar eu cyfer			Ymgwymerwyd ag ymgynghoriad gyda grŵp ffocws o Ysgol Arbennig Pen-y-cwm ym mis Hydref 2015. Mae Chwarae Cynaliadwy yn cael ei gyflenwi ar y cyd â SNAP Cymru, sydd wedi cyflenwi hyfforddiant chwarae cynhwysol i staff Groundwork Cymru ac mae hefyd ar gael i holl ddarparwyr yr ALI. Mae hyfforddiant chwarae cynhwysol ar gael trwy raglen hyfforddiant PBCPh yr ALI.		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn asesu gofynion chwarae plant anabl ar adeg man cyrraedd y gwasanaethau .		
Mae gan brosiectau a ddarparwyr chwarae fynediad i ystod o adnoddau sy'n cefnogi cynhwysiant			Mynediad i stordy sgrap Re-create Ferndale, RhCT. Cytundeb gyda gwasanaeth chwarae Torfaen i gael mynediad i lyfrgell deganau. Mae tîm PBCPh yr ALI yn cynnig hyfforddiant i gefnogi cynhwysiant fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant Oherwydd tanddefnydd, dydy'r llyfrgell chwarae ddim bellach ar gael ac fe ddosbarthwyd yr adnoddau i ddarparwyr lleol i gefnogi cynhwysiant.		
Mae mecanwaith adnabyddus a gytunwyd sy'n cael ei ddefnyddio i adnabod yr angen am ddarpariaeth ar wahân i blant anabl.			Mae'r cyngor yn ymateb i geisiadau penodol gan drigolion a grwpiau cymunedol, ynghyd â data poblogaeth er mwyn canfod angen. Mae'r ALI yn awyddus i gefnogi darpariaethau chwarae cynhwysol lle bo hynny'n bosib.	Does dim mecanwaith ar hy o bryd ar gael i adnabod yr angen am ddarpariaeth ar wahân i blant anabl.	
Cynhelir archwiliadau mynediad i holl ddarpariaethau chwarae fel y			Ymgwymerir ag archwiliadau mynediad darpariaethau chwarae statig fel rhan o		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
disgrifir yn y canllawiau			archwiliadau blynyddol yr ALI. Mae darpariaeth gofrestredig yr ALI yn cydymffurfio â gofynion mynediad fel rhan o'r broses gofrestru ar gyfer AGGCC. Cynhelir archwiliadau ad hoc trwy waith Groundworks Cymru a Chwarae Plant fel rhan o'u cyflenwad mewn cymunedau lleol.		
Mae gofod chwarae dynodedig yn cael ei ddarparu a'i gynnal a'i gadw'n dda ar safleoedd teithwyr sipiwn			Mae gan yr ALI un safle sipiwn, 'Cwmcrachen', sydd â gofod chwarae dynodedig.		
Mae gofynion gofalcwyr ifanc wedi'u deall ac mae darpariaeth ar eu cyfer			Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cefnogaeth i Ofalcwyr Ifanc, yn cynnig cyfleoedd chwarae. Bu ymgynghori gyda'r grŵp Gofalcwyr Ifanc fel rhan o'r ADCC hwn.		
Mae gofynion plant lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) wedi'u deall ac mae darpariaeth ar eu cyfer			Cafodd ei gydnabod, yn dilyn trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Ieuencid, y gall plant a phobl ifanc o bosib ddewis peidio â chael eu 'labelu' o dan y categori hwn yn yr oedran yma. Mae gwefan Gwasanaeth	No groups to support LGBT for this age group in Blaenau Gwent Does dim gwybodaeth benodol ar gyfer LHDT yn cael ei ddal ym Mlaenau Gwent.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			leuenctid Blaenau Gwent yn darparu gwybodaeth a chynghor i bobl ifanc LHD		
Mae gofynion plant anabl wedi'u deall ac mae darpariaeth ar eu cyfer o fewn mentrau traffig a thrafnidiaeth			Caiff hyn ei ateb trwy'r Ddeddf Anabledd. Mae rhwydwaith mewnol Priffyrdd yr ALI yn darparu mesurau gostegu traffig, parcio i'r anabl, cyrbiau isel, trafndiaeth gartref i ysgol yn ystyried gofynion synhwyrdd ac anabledd. Mae trafndiaeth rad ac am ddim ar gael er mwyn cael defnyddio'r Clwb leuenctid Integredig yng Nglyn Ebwy.		

Sylwadau Cyffredinol: Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol

Sut gafodd data ei ddefnyddio (neu sut gaiff y data ei ddefnyddio) i fynd i'r afael â rhwystrau mae plant gydag anghenion amrywiol yn eu hwynebu wrth geisio mynediad i gyfleoedd cynhwysol i chwarae?

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi ei atgyfnerthu trwy ymgynghori gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Defnyddiwyd elfen o Grant Gofal Plant Tu Allan i Orlau Ysgol gan yr Awdurdod Lleol i gomisiynu asiantaeth ymgynghori allanol i ymgymryd ag ymchwil a rhaglen ymgynghori er mwyn targedu grwpiau penodol o blant; roedd hwn yn faes a gafodd ei flaenoriaethu i ddarparu a chasglu data ar gyfer yr ADCCh hwn.

Yn ogystal â hyn, ymgwymerwyd ag ymgynghoriadau mewn digwyddiadau cymunedol gan gynnwys ein cynhadledd chwarae a gynhaliwyd ym mis Mai 2015 a Diwrnod Chwarae Cenedlaethol ym mis Awst 2015. Mae'r tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae hefyd yn ychwanegu at y

wybodaeth a ddarperir gan yr asiantaeth allanol trwy gynnal grwpiau ffocws wedi'u targedu at grwpiau penodol o blant a gwneud defnydd pellach o arolygon.

Mae'r Awdurdod Lleol yn anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac sy'n annog pob plentyn i chwarae yn eu cymunedau lleol. Dydy data daearyddol a gesglir, ar hyn o bryd, ddim yn darparu trawsdoriad ystadegol arwyddocaol o sylwadau plant a phobl ifanc er mwyn gallu adnabod y bylchau yn y ddarpariaeth.

Bu ymgynghori â phlant mewn un o'r pedair ardal a nodwyd trwy Gynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent fel rhai gwledig - Trefil. Doedd llawer o'r rhwystrau arferol i chwarae ddim yn cael eu hystyried yn broblem gan y plant hyn, gan gynnwys traffig, gan fod y plant yn teimlo bod gyrwyr yn ystyriol wrth dalu sylw iddyn nhw tra'n chwarae yn y stryd. Roedd hefyd ymdeimlad o ddiogelwch i blant oherwydd bod i'r pentref boblogaeth fach a bod 'pawb yn nabod ei gilydd'. Gosodwyd terfynau penodol ar blant gan rieni ac roedd cyfoeth o gyfleoedd chwarae i blant. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd y plant hefyd yn treulio rhywfaint o amser gydag aelodau teuluol eraill mewn trefi cyfagos, lle'r oedd gweithgareddau'n dueddol o fod wedi'u lleoli yn y cartref/yr ardd neu le'r oedd plant yng nghwmni oedolyn, gan adlewyrchu'r rhwystrau cyffredin i chwarae. Bydd y Tîm Chwarae'n anelu at adnabod grwpiau o blant mewn ardaloedd gwledig dynodedig eraill er mwyn ystyried unrhyw faterion penodol a wynebir.

Cynhaliwyd grŵp ffocws gydag 11 aelod o gyngor Ysgol Arbennig Pen-y-cwm, yn amrywio mewn oedran rhwng 9-19 oed gydag anghenion dysgu/ychwanegol amrywiol megis Anhwylderau'r Sbectwm Awstistiaeth ac Anawsterau Corfforol neu Synhwyrdd. Nododd y grŵp lle roedden nhw'n chwarae a thrafod yr hyn y teimlen nhw oedd y rhwystrau i chwarae - roedd gan blant wahanol brofiadau, gan ddibynnu ar ymwneud y rhieni.

Ymgynghorwyd â siaradwyr Cymraeg fel rhan o grŵp ffocws a gynhaliwyd o fewn i'r Cyngor Ysgol. Trafododd y grŵp sut y gellid goresgyn rhwystrau i ganiatáu mwy o gyfleoedd chwarae iddyn nhw ac fe nodwyd pethau y gallen nhw wneud eu hunain, gan gynnwys gwisgo'n addas ar gyfer y tywydd, adeiladu ymddiriedaeth gyda rhieni, cwblhau gwaith cartref/gwaith tŷ yn gynt, defnyddio mannau diogel i groesi a chroesfannau dynodedig. Un o'r awgrymiadau oedd y gallai'r Cyngor wneud mwy i wneud mannau chwarae'n fwy diogel rhag gwydr, sbwriel a 'phobl od'. Gofynnwyd i'r grŵp a oedden nhw'n teimlo yr hoffon nhw ddefnyddio'u cyfleoedd chwarae presennol neu rai eraill trwy gyfrwng y Gymraeg - doedd y mwyafrif ddim yn credu bod hyn yn fater o bwys.

Darparodd Ysgol Brynmawr grŵp ffocws gyda chynrychiolaeth o blant o ledled y Bwrdeisdref. Ystyriodd y grŵp y gallai terminoleg 'chwarae' ynddo'i hun weithredu fel rhwystr gan nad ydy rhai plant hyn ddim yn cysylltu'u hunain â 'chwarae'. Cymerwyd agwedd ehangach i ganfod darlun manwl-gywir o ba weithgareddau yr ymgymerwyd â nhw a chynhyrchwyd mapiau chwarae yn nodi'r lleoliadau lle'r oedd y grŵp yn dewis ymgasglu.

O'r ymarferiad hwn, nodwyd mannau chwarae anffurfiol yn bennaf mewn 4 ardal ym Mlaenau Gwent. Codwyd pryderon ynghylch dieithriaid (pobl amheus) a bwlio/ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn parciau lleol. Mewn ymateb i bryderon ynghylch defnyddio parciau, fe fydd y Tîm Chwarae'n arwain ymgyrch 'Adennill Ein Parciau' ym Mlwyddyn 1.

Roedd y Grŵp Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynnwys plant rhwng 7-11 oed. Nodwyd y rhwystrau arferol i chwarae fel: y tywydd, traffig, oedolion, amser ac fe gafodd datrysiadau eu hargymell. Roedd plant yn teimlo y byddai hi'n grêt petai strydoedd yn cael eu cau'n rheolaidd er mwyn eu galluogi i chwarae ar y stryd. Roedden nhw hefyd yn teimlo bod parciau angen mwy a gwell offer a mwy o goed i'w dringo ac i chwarae arnyn nhw. Mae camau ar droed mewn rhannau eraill o'r cynllun hwn i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Mae ein cynllun gweithredu'n ein galluogi i adeiladu ar ein hymchwil presennol trwy gymryd agwedd mwy systematig a chadarn at asesu p'un ai bod cyfleoedd chwarae yn ddigonol ym Mlaenau Gwent, gyda sylwadau a barn plant/pobl ifanc a rhieni/gofalwyr o gymunedau a grwpiau amrywiol.

Mater C: Mannau ar gael i blant chwarae: Mannau Agored a mannau chwarae awyr agored dynodedig heb eu staffio

Fe ddylai'r Awdurdod Lleol gydnabod bod holl fannau agored o fewn eu hardal â'r potensial i fod yn ardaloedd pwysig lle gall plant chwarae neu basio trwodd er mwyn cyrraedd mannau chwarae neu leoedd eraill lle maen nhw'n mynd.

Statws CAG

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	
Meini prawf heb eu cyflawni.	

Mannau Agored

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
-------------	-----------------	-----------------	---------------------------------	-----------	----------------------------

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgymryd ag Asesiad Mannau Agored (AMA) sy'n mapio ardaloedd sy'n cael eu defnyddio, neu a all gael eu defnyddio i chwarae fel y rhestrir yn y Canllawiau Statudol			Mae asesiadau mannau agored yn cael eu cynnal ar fannau agored ffurfiol/anffurfiol – mannau chwarae, mannau chwaraeon olwyn, caeau chwarae ayyb.	Fe ddylai chwarae gael ei gydnabod fel swyddogaeth man agored.	Cynhyrchu llyfryn gwybodaeth i hyrwyddo mannau chwaraeadwy ym Mlaenau Gwent cysylltiedig ag AMA/AMG.
Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgymryd ag Astudiaeth Mannau Gwyrdd Hygyrch sy'n mapio ardaloedd sy'n cael eu defnyddio i chwarae			Mae Blaenau Gwent wedi cynnal Asesiad Mannau Gwyrdd fel rhan o'r Papur Cefndir ar Hamdden ar gyfer y Cynllun Adneuo Datblygu Lleol. Mae'r Asesiad Mannau Gwyrdd yn unol â safonau Mannau Gwyrdd Naturiol a ddatblygwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC).		
Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd ag archwiliadau mynediad ymhob man agored ac yn gweithredu cynigion i wella mynediad a diogelwch			Mae archwiliadau mynediad yn cael eu cynnal ar fannau chwarae ffurfiol fel rhan o'n harchwiliadau blynyddol. Mae cynigion i wella archwiliadau mynediad a diogelwch yn cael eu cynnal oddi fewn i'n cyfyngiadau cyllid		
Mae'r Awdurdod Lleol wed			Mae Blaenau Gwent wedi		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
datblygu ei Safonau Mannau Agored ei hun yn unol â chynghor a gofynion Polisi Cynllunio Cymru			datblygu ei Safonau Mannau Agored ei hun yn unol â safonau Meysydd Chwarae Cymru (MChC)).		
Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd ag ac yn gweithredu asesiadau Mannau Chwarae sy'n cynnwys camau i wneud mannau cyhoeddus yn glir o beryglon			Cynhelir archwiliadau misol/wythnosol a blynyddol ac ymgwymerir â chamau fel bo'r angen gyda'r flaenoriaeth i faterion iechyd a diogelwch. Mae'r ALL yn ymateb i adborth gan drigolion.		
Mae safleoedd tir llwyd ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol yn cael eu hasesu ar gyfer y potensial i'w hadfer i ddarparu mannau chwarae i blant			Caiff unrhyw ddatblygiadau newydd eu hasesu a nodir unrhyw anghenion chwarae i blant yn hyr ardal.		

Mannau Chwarae Awyr Agored Dynodedig heb eu Staffio

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion cyfredol o holl fannau chwarae dynodedig fel y disgrifir yn y Canllawiau			Mae'r data yma ar gael trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a thrwy fapio GGP.		Cyflwyno rhaglen gydnabyddiaeth 'Cymuned Cyfle-i-chwarae'

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Statudol			Mae gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd trwy wefan corfforaethol CBSBG.		Holi am ffynonellau ariannu i ddatblygu a diweddarau mannau chwarae. Ystyried sut y gallai gwirfoddolwyr gynorthwyo i ymgymryd ag asesiadau mannau chwarae.
Mae'r Awdurdod Lleol yn asesu mannau chwarae ar gyfer eu gwerth chwarae a'u potensial i gynyddu eu defnydd i chwarae fel ag a nodir yn y Canllawiau Statudol			Cynhelir asesiad gwerth chwarae sylfaenol fel rhan o'r drefn archwilio flynyddol. Mae'r ALI yn cydnabod bod plant yn defnyddio mannau chwarae anffurfiol i chwarae ac yn cyhoeddi canllawiau i hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd chwarae.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd ag archwiliadau mynediad ymhob man chwarae dynodedig ac yn gweithredu cynigion i wella mynediad a diogelwch.			Cynhelir archwiliadau mynediad fel rhan o'r drefn archwilio flynyddol.		
Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu a chytuno ar safon darpariaeth chwarae penodedig newydd			Mae gan y cyngor ei bolisi safonau ei hun i ddarparu 1 man chwarae statig i bob 250 o blant ac 1 man chwaraeon olwyn ac un Man Gemau Aml-ddefnydd (MGA) i bob ardal ward		
Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgymryd ag ac yn gweithredu asesiadau mannau chwarae mewn mannau chwarae dynodedig			Mae canllawiau ar gael ar y wefan er mwyn ymgysylltu â chymunedau lleol i ymgymryd ag asesiadau mannau chwarae.	Mae asesiadau o bob man chwarae y tu hwnt i adnoddau presennol yr ALI. Mae ffactorau a fase'n effeithio ar asesiadau yn ystod un	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
				ymweliad arsyllu, gan gynnwys y tywydd, diddordebau eraill ayyb, felly nid ystyrir yn adlewyrchiad go iawn o ddefnydd.	
Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflwyno chwaraeoledd di-fwg.			Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflwyno pob man chwarae fel ardaloedd di-fwg. Bu plant ysgolion lleol yn rhan o gynllunio'r arwyddion.		
Mae'r Awdurdod Lleol wedi symud arwyddion 'dim gemau pêl' er mwyn annog mwy o blant i chwarae yn y gymuned.			Mae'r ALI wedi symud arwyddion 'dim gemau pêl'. Mae gan Gymdeithasau Tai a phartneriaethau lleol gynlluniau i ystyried strategaethau eraill i leihau pryderon am gemau pêl (plannu) yn hytrach na defnyddio arwyddion.		
Mae'r Awdurdod Lleol wedi codi arwyddion, megis Arwyddion Blaenoriaeth i Chwarae er mwyn annog mwy o blant i chwarae yn y gymuned			Mae gwaith wedi dechrau i gefnogi cymunedau lleol i greu 'cymunedau cyfle-i-chwarae' trwy raglen gydnabyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys cydnabyddiaeth o bwysigrwydd caeau chwarae pan wneir unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwaredu tir			Trwy ymgynghoriad gyda'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chasgliadau presennol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys plant a'u teuluoedd mewn unrhyw ymgynghoriadau ynglŷn â phenderfyniadau i waredu caeau chwarae.			Cyflwynodd LIC 'Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010', yn ei gwneud hi'n orfodol i awdurdodau lleol gynnwys cymunedau lleol mewn penderfyniadau ynglŷn â gwaredu caeau chwarae. Mae Plant a Phobl Ifanc yn cael eu cynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori. Strategaeth Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Blaenau Gwent 2013-17.		

Sylwadau Cyffredinol: Mannau Agored

Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau cydweithrediad rhwng Asesiadau Mannau Agored (AMA) ac Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae er mwyn gwella mannau i chwarae?

Mae Asesiadau Mannau Agored Blaenau Gwent yn adlewyrchu amrywiaeth o fannau agored sy'n cynnwys caeau chwaraeon awyr agored, mannau chwarae a chaeau chwarae ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n cydnabod ac yn gweithio i hyrwyddo chwarae fel 'swyddogaeth man agored', gan gydnabod y bydd ac y mae plant yn chwarae ymhob man ac yn unrhyw le. Ar hyn o bryd dydyn ni ddim yn mapio pob lle 'sydd neu a allai gael ei ddefnyddio i chwarae' ac mae hwn yn faes i'w ddatblygu mewn ADCCh dilynol. Mae hi'n werth ystyried p'un ai a fyddai hi'n fwy buddiol/effeithiol i fapio ardaloedd na ddylid/na ellid eu defnyddio i chwarae am resymau iechyd a diogelwch neu am fod y lle yn anaddas.

[PSA 2016\GGP Spaces map.pdf](#)

Mae Parc Southend yn Nhredegar wedi derbyn arian wedi i'r gymuned a'r Awdurdod Lleol nodi bod taer angen gwneud gwaith adnewyddu. Mae'r ardal yn ardal beilot ar gyfer 'cymunedau cyfle-i-chwarae' yr Awdurdod Lleol. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda Groundworks i ddatblygu cyfleoedd chwarae i wella'r ardal chwarae. Bydd hyn yn sicrhau bod y man a adnewyddwyd yn ystyried anghenion y gwahanol grwpiau oedran gan gynnwys y genhedlaeth hŷn a'i wneud yn fan i'r holl gymuned. Mae ymgynghori eisoes wedi bod mewn digwyddiadau cymunedol, sesiynau chwarae wythnosol, ynghyd â'r Awdurdod Lleol yn ymweld â'r ysgol leol i weithio gyda Chyngor yr Ysgol ar y cynllun. Mae cyfarfodydd trigolion hefyd wedi cael cefnogaeth er mwyn helpu mynd i'r afael â rhwystrau a phryderon posib, tra'n codi proffil hawl pob plentyn i chwarae.

Sylwadau Eraill ar Fannau chwarae awyr agored dynodedig heb eu staffio

Mae gan yr Awdurdod 77 o fannau chwarae dynodedig ledled y Bwrdeisdref, sy'n cynnwys mannau chwarae, cyrtiau chwarae pêl a chwaraeon olwyn. Trwy gyfrwng archwiliadau wythnosol/misol, mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod y rhain yn ddiogel ac yn ddeniadol i'r cyhoedd, ond mae'n wynebu heriau cyfyngiadau ariannol. Ymgwymerir yn flynyddol ar hyn o bryd ag archwiliadau adeileddol gan ymgynghorydd sy'n asesu mannau chwarae ar gyfer: dynodiad, gwerth chwarae, gorsafoedd defnyddwyr, datblygiad, diogelwch cymdeithasol/goruchwyliaeth ysbeidiol, mynediad a chyfleoedd. Mae'r Awdurdod Lleol wedi gweld gostyngiad arwyddocaol yn eu cyllideb chwarae statig o £85mil yn 2013 i £15mil (2015/16), sef yr hyn a ddefnyddir i gynnal a chadw offer chwarae gosod i blant. Fe gydnabyddir o adroddiadau'r Archwiliad Blynyddol am ein mannau chwarae statig y bydd angen inni geisio cyllid allanol er mwyn gweithredu deilliannau'r asesiadau.

Mae un deilliant o'r ymgynghoriad cymunedol wedi adnabod a chadarnhau pryder yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd ag effaith ar fannau chwarae gan gynnwys hygyrchedd i blant a phobl ifanc. Bydd Blaenau Gwent yn parhau i weithio gyda phartneriaid a chymunedau lleol i ostwng a lleihau'r pryderon hyn, a fydd yn eu tro yn lleihau gwariant cynnal a chadw'r ardaloedd hyn yn y dyfodol.

Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd ac y mae plant yn chwarae ymhob man ac yn unrhyw le gan gynnwys llain lydan ymylon ffyrdd, strydoedd, mannau agored caeau chwarae a chwaraeon, gerllaw garejys ayyb - er mwyn ategu'r ADCCh hwn, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgymryd ag ymgynghoriad, gan wahodd plant i roi eu barn ar y cyfleoedd chwarae yn eu hardal leol (o fewn 10munud o gerdded o'u cartrefi) er mwyn nodi lle mae plant yn chwarae - mae hyn wedi cyfeirio datblygiad yr ADCCh i gefnogi mannau anffurfiol lle mae plant yn chwarae, gyda'r nod o annog yn frwd a datblygu 'cymunedau cyfle-i-chwarae'.

Mae pob datblygiad yn ymwneud â mannau chwarae awyr agored yn cynnwys ymgysylltu â phlant/pobl ifanc a'r gymuned leol er mwyn sicrhau eu bod yn cyfranogi yng nghynllunio a lleoliad mannau chwarae.

Mater D: Darpariaeth a oruchwylir

Fe ddylai'r Awdurdod Lleol anelu at gynnig ystod o ddarpariaeth chwarae a oruchwylir.

Statws CAG

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	
Meini prawf heb eu cyflawni.	

Darpariaeth gwaith chwarae

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion cyfredol o'r holl ddarpariaeth chwarae a oruchwylir fel y nodir yn y Canllawiau Statudol			Delir gwybodaeth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac mae ar gael trwy'r wefan, teclyn chwilio ar-lein a'r gwasanaeth ffôn.	Data anghyflawn mewn perthynas â darpariaeth chwarae anghofrestredig.	Cynhaliwyd astudiaethau dichonolrwydd mewn 3 ysgol i ganfod yr angen am ddarpariaeth ar ôl ysgol.
Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig darpariaeth chwarae sy'n cynnig amgylchfyd chwarae cyfoethog fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol			Dydy blaenoriaethau ariannu'r ALI ddim bellach yn cynnal tîm chwarae penodol i gynnig/cyflenwi darpariaeth chwarae. Fodd bynnag, mae'r ALI yn comisiynu partneriaid i gyflenwi darpariaeth		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			chwarae. Mae CBSBG yn gweithio gyda Groundwork Cymru i adnabod cymunedau sy'n cynnig amgylchfyd chwarae cyfoethog.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod cefnogaeth i bartneriaid i gynnig amgylchoedd chwarae cyfoethog fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol			Mae'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, Swyddog Gwellfa Ansawdd PBCPh a Swyddog Datblygu Busnes PBCP ar gael i gefnogi ac i gynnig cyfarfodydd rhwydweithio; mae hyfforddiant, cyngor ac arweiniad a gwelliannau'n cael eu hannog trwy'r rhaglen SA. Yn cefnogi Groundwork Cymru a Chwarae Plant gan ganiatáu mynediad i dir ar gyfer sesiynau chwarae agored a ariennir.		
Mae darpariaeth chwarae wedi'i staffio ac a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol yn		N/A	Dydy'r ALI ddim bellach yn darparu unrhyw ddarpariaeth chwarae wedi'i staffio – ein rôl ydy galluogi a chydlyn cyfleoedd. Fodd bynnag, mae		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
cwrdd â gofynion rheoliadol a Safonau Gofynnol Cenedlaethol			pob mudiad a gomisiynir yn cwrdd â SGC i arddangos arfer da.		
Mae darpariaeth chwarae wedi'i staffio ag sy'n cael ei ariannu gan yr Awdurdod Lleol yn cwrdd â'r gofynion rheoliadol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol			Gweithredir unrhyw ddarpariaeth ar sail mynediad agored gyda SGC i arddangos arfer da. Caiff hyn ei amodi yn ein cytundebau lefel gwasanaeth gyda darparwyr. Caiff sesiynau chwarae mynediad agored trwy Groundwork Wales a Chwarae Plant yn cael eu cyflenwi gan weithwyr chwarae cymwys yn unol â rheoliadau AGGCC		
Mae darpariaeth chwarae wedi'i staffio ac a ddarperir gan bartneriaid yr Awdurdod Lleol yn cwrdd â'r gofynion rheoliadol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol			Mae'r ALI yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau eu bod yn gweithio i'r SGC – yn ogystal, cynghorir darpariaethau anghofrestredig i gwrdd â SGC fel arfer da. Mae'r Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n defnyddio		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			rhaglen SA ac yn monitro trwy ymweliadau rheolaidd.		
Mae'r ddarpariaeth chwarae wedi'i staffio ledled yr Awdurdod Lleol yn gweithio yn ôl rhaglen sicrwydd ansawdd cydnabyddedig			Cyflwynwyd Cyfraddau Graddio Amgylcheddol Gofal Plant Oed Ysgol i ddarparwyr chwarae yn 2015 gyda 4 allan o 5 darparwr wedi derbyn eu sgôr sylfaenol a chynllun gweithredu er mwyn gwella arfer.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn blaenoriaethu materion ansawdd wrth ddelio gyda/comisiynu'r sector breifat i gyflenwi gweithgareddau hamdden i blant.			Gweithredir proses i gomisiynu'r sector breifat gyda thystiolaeth i gefnogi ansawdd fel safon ofynnol trwy'r Polisi Rheolau Sefydlog i Gontractau. Mae Rhwydwaith chwarae strategol Cymru gyfan yn cael cefnogaeth trwy Chwarae Cymru er mwyn dilyn y diweddaraf ynglŷn ag arferion da a rhannu syniadau chwarae sy'n cyfoethogi.	Mae'r adnoddau i gynnal hapwiriadau yn gyfyngedig	
Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu eiddo'r cyngor a gofod rhad ac am ddim i			Mae rhestr o leoedd gwag rhad ac am ddim ar gael trwy	Does dim polisi mewn lle i gefnogi'r fenter hon nag adnodd a nodir i ddigolledu	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
fudiadau sy'n cynnig darpariaeth chwarae rhad ac am ddim i blant (yn y pwynt mynediad).			Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae PBCPh ac adrannau eraill, o dro i dro, wedi darparu eiddo yn rhad ac am ddim neu ar gost sylweddol lai ar sail orddewisol am gyfnodau byr yn unig. Mae'r ALI yn darparu mannau yn yr awyr agored i chwarae ar ran Groundwork Cymru a Chwarae Plant i gyflenwi sesiynau.	partneriaid fel polisi prif ffrwd. Mae'r angen i eiddo'r ALI weithio tuag at gynaliadwyedd wedi dod fel canlyniad i gyfyngiadau cyllideb.	

Gweithgareddau hamdden wedi'u strwythuro i blant

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Awdurdod Lleol yn cyflenwi ar ei gyfrifoldeb i sicrhau'r gwasanaethau a nodir o dan Nod Craidd 4 ar gyfer chwaraeon, hamdden a diwylliant.		Ddim yn berthnasol	Mae'r cyfrifoldeb i sicrhau'r gwasanaeth bellach yn eistedd o fewn i'r CIS		Mae swyddogion tîm PBCPh yn ymgysylltu â'r academi Newid Graddfa Fawr
Mae'r cynllun "Creu Cymru Egnïol" lleol yn cynyddu			Mae Blaenau Gwent yn rhan o'r academi Newid		Sefydlu a oes unrhyw CPALI mewn grym ym Mlaenau Gwent

gweithgareddau chwarae a hamdden i blant			Graddfa Fawr 'Bydd Egniol' sy'n targedu menywod 14-44 oed ym Mhennau'r Cymoedd.		
Mae Cytundebau Partneriaeth yr Awdurdod Lleol (CPALI) yn cyfrannu at gynyddu gweithgareddau chwarae a hamdden rhad ac am ddim			Ni ddarparwyd y wybodaeth yma ar gyfer yr ADCCCh		
Mae'r agenda chwaraeon yn cyfrannu tuag at ddarparu gweithgareddau hamdden digonol i blant			Mae Cymunedau'n Gyntaf (CG) De a Gogledd Ebwy Fach yn gweithio mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin i gyflenwi Gemau Stryd ac Us Girls ledled Blaenau Gwent yn: - Brynmawr - Coed Cae - Blaenau - Roseheyworth - Gorsaf Dân Abertyleri - Ysgol Gyfun Abertyleri Mae CG yn adnabod gwirfoddolwyr addas i gyflenwi Gemau Stryd yn eu cymunedau lleol. Wrth nodi'r gwirfoddolwyr hyn, mae CG yn cysylltu gydag		

			Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin er mwyn i wirfoddolwyr fynychu eu hyfforddiant Gwobr Arweinwyr Chwaraeon Cymunedol. Mae tîm ysbrydoli chwaraeon Hamdden Aneurin wedi'i leoli yng nghanolfannau hamdden Abertyleri, Glyn Ebwy a Thredegar yn cynnig Campau'r Ddraig, 5x60, Gemau Stryd, Us Girls ac Arweinwyr Ifanc.		
Mae'r agenda diwylliant a'r celfyddydau yn cyfrannu at ddarpariaeth gweithgareddau hamdden digonol i blant			Mae 72 * o sesiynau Cerdd/Drama/Crefftau Gweledol/Crefftau wedi'u cyflenwi gan Head4Arts i 2705 o bobl ifanc a'u teuluoedd ers 2013. Mae Cymunedau'n Gyntaf (CG) De Ebwy Fach yn gweithio mewn partneriaeth gyda Thîm Chwarae CSBBC yn treialu darpariaeth chwarae deuluol newydd yn Ysgol Gynradd Roseheyworth. Roedd Cymunedau'n Gyntaf (CG) De a Gogledd Ebwy Fach wedi		

			hyrwyddo a gweithio mewn partneriaeth gyda Heads4Arts yn y gorffennol i gyflenwi troeon cerdded a rhyngweithio. Mae Theatr a Dawnsfa Beaufort a Chanolfan Diwylliannol a Chynadledda Metropole yn darparu ystod eang o weithgareddau celfyddydol a diwylliannol trwy dîm Datblygu Celfyddydau Hamdden Aneurin. Mae'r Ymddiriedolaeth Hamdden yn cynnig rhaglen o weithgareddau yn Nhŷ Bedwellte a Pharc Bryn Bach yn ystod hanner tymor/gwyliau ysgol.		
Mae Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod Lleol yn darparu cyfleoedd i blant hamddena a chymdeithasu.			Yn 2014/15, roedd 18% (2,280 unigolyn) rhwng 11-25 oed ym Mlaenau Gwent yn derbyn cefnogaeth y Gwasanaeth Ieuenctid; derbyniodd 29% ohonyn nhw 748 o achrediadau a gydnabyddir yn genedlaethol, gan gyrraedd 3ydd allan o 22	Mae dibyniaeth y Gwasanaeth Ieuenctid ar grantiau allanol yn risg. Fodd bynnag, mae sicrhau Cyllid Cymdeithasol Ewropeaidd dros y 3-5 mlynedd nesaf yn cynnig rhywfaint o sefydlogrwydd oddi fewn i hinsawdd ariannol ansicr. Yn y pen	

			ledled Cymru. O'r grŵp oedran 11-25, mae'r Gwasanaeth Ieuencid wedi cefnogi 42% o rai 14-16 oed yn yr ardal, 35% o holl rai rhwng 11-13 oed, 13% o rai rhwng 17-19 oed, a 2% o rai rhwng 20-25 oed. Mae'r ffocws ar rai rhwng 11-19 oed wedi helpu sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi trwy gydol eu haddysg a'u hyfforddiant a'u helpu i gynnal eu dewis o gyrchfan. Yn ychwanegol, mae'r gwasanaeth yn cefnogi mwy o bobl ifanc yn anhysbys trwy'r Gwasanaeth Cwnsela 11-18, C Card, nosweithiau Open for Youth, gweithgareddau a digwyddiadau tu allan i'r ysgol. Yn 2013/14 cafodd y Gwasanaeth Ieuencid 7, 564 o gysylltiadau anhysbys gyda phobl ifanc. Mae Gwasanaeth Ieuencid Blaenau Gwent	draw, golyga hyn y bydd gan y bobl ifanc mwyaf bregus yn y gymuned gefnogaeth barhaus am y tair i bum mlynedd nesaf.	
--	--	--	---	---	--

			yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc rhwng 11-25 oed a hefyd yn cefnogi pobl ifanc trwy bontio cynnar o 9 mlwydd oed ymlaen. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i leoli yn y gymuned, yng Nghanolfan Diwylliannol Glyn Ebwy a Chanolfan Ieuenctid Abertyleri; mae ganddo hefyd 3 chanolfan clybiau ieuenctid, sef Abertyleri, Brynteg a Cwm ac yn darparu Gwasanaeth Ieuenctid Datgysylltiedig ar y stryd i weithio gyda phobl ifanc yn eu milltir sgwâr. Mynediad Agored: mae'r ddarpariaeth mynediad agored i ieuenctid ar gyfer pawb rhwng 11 a 25 oed. Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar anghenion a nodir ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc gan gynnwys Gwobr Dug Caeredin, Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig, Gwasanaeth Gwybodaeth i Ieuenctid (gan gynnwys		
--	--	--	---	--	--

			Grŵp Golygyddol Byg), rhaglen Gwirfoddoli Cynrychiolwyr Ifanc, Gwasanaeth Cwnsela 11-18, Clybiau Ieuenctid, Nosweithiau Open for Youth a rhaglenni gwyliau ysgol. Darpariaeth i Ieuenctid wedi'i Thargeddu: Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau bod pobl ifanc bregus yn cael cefnogaeth briodol er mwyn dod dros rwystrau iechyd a lles ac i barhau neu gael mynediad i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Seilir y gwasanaeth hwn ar anghenion a nodir ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd a chefnogaeth i bobl ifanc gan gynnwys gweithwyr Ieuenctid Oasis mewn ysgolion, Ysbrydoli i Gyflawni 11-24, Iechyd Rhyw a'r Gwasanaeth Cwnsela 11-18.		
--	--	--	--	--	--

Sylwadau Cyffredinol:

Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth

Lle mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu lleoliadau fel rhan o'r Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (ADCCh), sut mae'r lleoliadau hyn wedi'u hasesu gyda golwg ar ansawdd y cyfleoedd chwarae maen nhw'n eu darparu ac yn cynnig.

Mae llawer o'r hyn y cyfeirir ato fel darpariaeth chwarae (yn enwedig mewn perthynas â chlybiau ar ôl ysgol) o fewn yr Awdurdod Lleol yn bennaf yn ddarpariaeth gofal. Mae'n hi'n amlwg trwy ein prosesau Sicrwydd Ansawdd bod ymrwymiad cryf i sicrhau bod plant yn derbyn cyfleoedd chwarae da, fodd bynnag, dydy'r hyn a ystyrir fel darpariaeth chwarae ddim ar gael fel gweithgaredd "dewis rhydd" i'r rhan fwyaf o blant ac felly ni ellir ystyried darpariaeth gofal fel darpariaeth chwarae ar gyfer ardal benodol, gan na fase'r mwyafrif o blant yn gallu'i defnyddio.

Mae Swyddog Gwella Ansawdd (SGA) Gofal Plant neilltuol yr Awdurdod Lleol ac Athro Ymgynghorol Dechrau'n Deg (AYDD) yn asesu lleoliadau gan ddefnyddio Graddfeydd Cyfrifo Amgylcheddol (GCA). Mae'r GCA yn declyn cynhwysfawr, dibynadwy a dilys sy'n asesu ansawdd ac yn medru mesur yr hyn a welir, yn adnabod arferion da ac yn nodi meysydd gwelliant. Mae gofyn i ddarparwyr gofal plant neu chwarae mewnosod gofynion GCA i mewn i'w arferion dyddiol. Bydd y SGA neu'r AYDD yn archwilio ansawdd yr hyn mae plant yn ei brofi go iawn, pa mor dda mae'r ddarpariaeth yn cyfarfod ag anghenion ystod eang o blant, yr adnoddau a'r gweithgareddau sy'n ar gael i blant eu profi'n agored, cyfraniad y ddarpariaeth i les plant ac ansawdd a safonau cyffredinol y lleoliad.

Mae'r broses yn golygu ymweliad cychwynnol i gwblhau asesiad sylfaenol. Yn dilyn yr asesiad hwn, caiff y lleoliad ei ddynodi sgôr sylfaenol, ynghyd ag adroddiad am gryfderau'r lleoliad a'r meysydd y gellir eu gwella. Mae'r SGA a'r AYDD yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r lleoliad i ddatblygu cynllun gweithredu a gytunir, ynghyd â graddfeydd amser i weithio tuag at wella'r meysydd sydd angen sylw. Pan fo lleoliad yn teimlo eu bod yn barod, o fewn y raddfa amser a gytunwyd, bydd y SGA a'r AYDD yn dychwelyd i gynnal asesiad arall a fydd yn nodi sgôr gwell, a sgôr ansawdd cyffredinol y lleoliad. Bydd y raddfa sgôr ansawdd uchaf o 7 yn golygu y cafwyd bod y ddarpariaeth gofal plant/chwarae o ansawdd rhagorol ac o afon uchel iawn, tra byddai sgôr is o 1 neu 2 yn raddfa annigonol. Caiff pob lleoliad eu hannog a'u cefnogi i gyrraedd graddfa sgôr ansawdd da o 5 neu fwy. Unwaith y cyrhaeddir hynny, bydd y SGA a'r AYDD yn parhau i weithio gyda'r lleoliad er mwyn sicrhau bod y sgôr ansawdd yn cael ei gynnal neu wella.

Sut mae darpariaeth sydd ddim yn rhan o'r ADCCh wedi'i hasesu o ran ansawdd y cyfleoedd chwarae maen nhw'n ei ddarparu a chynnig?

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig canllawiau arfer da i ddarpariaethau anghofrestredig, gan gynnwys cynhyrchu teclyn Sicrwydd Ansawdd ar gyfer grwpiau Rhiant a Phlentyn/Cylchoedd Ti a Fi a hefyd yn cynnig mynediad i gyfleoedd hyfforddiant trwy'r rhaglen hyfforddi PBCPh.

Dydy'r Awdurdod Lleol ddim bellach yn cynnig darpariaethau chwarae mynediad agored wedi'u staffio fel ag a ddisgrifir yn y canllawiau statudol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, gwelwyd lleihad arwyddocaol mewn darpariaethau chwarae mynediad agored ledled yr Awdurdod Lleol, gyda cholli Cymdeithas Chwarae'r Tair Sir a Thîm Datblygu Chwarae'r Awdurdod Lleol.

Mae darpariaeth chwarae wedi'u staffio ar sail mynediad agored yn cael ei chyflenwi yn ad hoc lle be cyllid yn caniatáu. Lle b'r Awdurdod Lleol yn comisiynu partner i ddarparu sesiynau chwarae mynediad agored, mae'r SDCCh (Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae) yn monitro a gwerthuso ansawdd y cyfleoedd chwarae trwy ymweliadau rheolaidd â sesiynau lle caiff sylwadau, ymgynghoriadau ac adborth eu casglu. Cynhelir cyfarfodydd cefnogi rheolaidd hefyd er mwyn mynd i'r afael â heriau a nodi meysydd arfer da.

Mater E: Costau darpariaeth chwarae

Fe ddylai'r Awdurdod Lleol ystyried pa gyfleoedd chwarae sy'n golygu cost a faint mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried y costau hyn wrth asesu am gyfleoedd chwarae digonol i blant o deuluoedd incwm isel fel y nodir yn y Canllawiau Statudol.

Statws CAG

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	
Meini prawf heb eu cyflawni.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel			Ar gael trwy'r data am brydau bwyd am ddim. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn dal data am gartrefi lle mae cyflogaeth neu lle mae diweithdra. Mae data Treth y Cyngor hefyd ar gael er mwyn adnabod teuluoedd incwm isel.		Datblygu cysylltiadau gyda Chynghorau Tref a Chymuned a'r sector wirfoddol er mwyn adnabod darpariaethau anghofrestredig mewn cymunedau lleol. Ceisio cyllid i gynnig mwy o sesiynau mynediad agored
Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd			Mae'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru a'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Plant yn adnabod y plant hynny sy'n byw		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			yn 10 Uchaf yr ardaloedd mwyaf amddifadus.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig			Mae gwybodaeth ar gael trwy ddata PLASC ar gyfer ardaloedd gwledig Blaenau Gwent.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnodion o'r nifer o blant anabl a'r rhai hynny ag anghenion arbennig.			Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cofnodi plant sy'n cael mynediad i rwydweithiau gwaith cymdeithasol ac sy'n mynychu ysgolion arbennig. Mae nifer o ffynonellau ar gael i ddarparu'r wybodaeth hon, gan gynnwys Ysgolion, Addysg, Anabledd a'r Tîm Seicoleg.	Dydy'r data yma ddim yn ystyried plant sydd heb ddiagnosis ffurfiol.	
Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi argaeledd darpariaethau sy'n ddigost			Delir gwybodaeth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac ar gael trwy'r wefan, teclyn chwilio ar-lein a'r gwasanaeth ffôn.	Mae bylchau mewn perthynas â darpariaeth anghofrestredig, gan mai gwasanaeth gwirfoddol ydy hwn.	
Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi darpariaeth eiddo heb gost / cost isel a ddefnyddir ar gyfer darpariaethau chwarae			Delir gwybodaeth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac ar gael trwy'r wefan, teclyn	Mae bylchau mewn perthynas â darpariaeth anghofrestredig, gan mai gwasanaeth gwirfoddol ydy hwn.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			chwilio ar-lein a'r gwasanaeth ffôn.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn cofnodi'r darpariaethau lle mae grantiau neu gymorthdaliadau ar gael i ddarparwyr chwarae			Mae'r ALI yn darparu grantiau dechreuol ar gyfer lleoedd gofal plant newydd a grantiau cynaliadwyedd ar gyfer darpariaethau sy'n bodoli eisoes. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau gofal plant ar ôl ysgol.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu trafndiaeth sy'n cael cymorth ariannol i blant sy'n teithio ar gyfer cyfleoedd chwarae			Darparodd Cymunedau'n Gyntaf (CG) De Ebwy Fach drafnidiaeth rhad ac am ddim i'r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol er mwyn cefnogi teuluoedd i gymryd rhan yn y cyfleoedd oedd ar gael Mae Cymunedau'n Gyntaf (CG) De a Gogledd Ebwy Fach hefyd wedi darparu trafndiaeth rhad ac am ddim i ddigwyddiadau a drefnwyd a chyfleoedd chwarae/ cysylltu â theuluoedd. Mae'r ALI yn hyrwyddo		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			cyfleoedd chwarae 'stepan drws' er mwyn lleihau'r angen am drafnidiaeth gyda chymorth ariannol.		

Sylwadau Cyffredinol: Costau ar gyfer darpariaeth chwarae

Sut mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod gan blant fynediad i ddarpariaethau digost neu gost isel?

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Blaenau Gwent yn cofnodi gwybodaeth am ddarpariaethau chwarae a hamdden cost isel a heb gost ac fe gaiff y rhain eu hyrwyddo trwy eu sianelau cyfryngol a'r teclyn chwilio ar-lein.

Mae holl ddarpariaethau chwarae Mynediad Agored a ariennir gan yr Awdurdod Lleol yn rhad ac am ddim ar bwynt mynediad, fodd bynnag, mae angen arian ychwanegol i gynyddu capasiti er mwyn cefnogi cyfleoedd chwarae cymunedol. Mae'r meysydd a nodwyd yn yr ADCCh fel 'amddifadus o chwarae' wedi'u blaenoriaethu pan fo cyllidebau wedi caniatáu, i gynnig darpariaeth chwarae.

Defnyddiodd yr ALI elfen o gyllid Sicrhau Cyfleoedd Chwarae Digonol ar ddechrau 2015 i gomisiynu Chwarae Plant o fis Mawrth 2015-2016 i gyflenwi sesiynau chwarae Mynediad Agored mewn 2 gymuned gan gefnogi 587 o blant a phobl ifanc. Er mwyn cefnogi mynediad a darpariaeth ddigost/cost isel, cyflenwir y sesiynau hyn lle mae plant a phobl ifanc yn byw, gan ddefnyddio'u cymuned leol fel gofod i chwarae. Fodd bynnag, ar adeg sgwennu'r ADCCh presennol, mae ansicrwydd ynglŷn â blaenoriaethau cyllidol i barhau'r gwasanaeth hwn y tu hwnt i fis Mawrth 2016.

Mae Prosiect Chwarae Cynaliadwy Groundworks yn rhaglen 3 mlynedd sydd wedi'i lunio i annog chwarae yn yr awyr agored yn yr amgylchfyd naturiol heb gost neu ar gost isel er mwyn cefnogi iechyd a lles plant a theuluoedd, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn tldi. Mae wedi'i gyflwyno mewn 2 gymuned ym Mlaenau Gwent i gefnogi'r bylchau a nodwyd yn ADCCh 2013. Mae'r prosiect chwarae cynaliadwy wedi ymwneud â 350 o blant a phobl ifanc mewn 30 o sesiynau chwarae a 2 ddigwyddiad cymunedol ac ymgysylltu â 66 o deuluoedd i gefnogi a hyrwyddo chwarae. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda Groundworks Cymru i adnabod cymunedau a chefnogi ymgysylltiad y cymunedau rheini er mwyn sicrhau bod gan blant ym Mlaenau Gwent fynediad i ddarpariaethau digost neu gost isel.

Mae Cymunedau'n Gyntaf De Ebwy Fach a Gogledd Ebwy Fach yn hysbysebu'n eang unrhyw gyfleoedd sydd ar gael i deuluoedd ac unigolion sy'n byw o few neu glystyrau - hysbysfyrddau, siopau, Facebook, ar lafar a thrwy gyflenwi prosiectau.

Does dim cynlluniau ar hyn o bryd i'r Awdurdod Lleol ariannu darpariaethau chwarae a gyflenwir gan bartneriaid trwy grantiau neu renti rhatach ar eiddo, oherwydd cyfyngiadau cyllideb.

Mater F: Mynediad i fannau/darpariaethau

Fe ddylai'r Awdurdod Lleol ystyried yr holl ffactorau sy'n cyfrannu at fynediad plant i chwarae neu symud o amgylch eu cymunedau.

Statws CAG

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	
Meini prawf heb eu cyflawni.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod cyfredol o'r nifer o barthau 20mya/parthau diogelwch ysgolion mewn ardaloedd preswyl			Mae'r ALL yn cofnodi parthau 20mya.		Adnabod pleidwyr cymunedol i gyflenwi safonau beicio a Kerbcraft. Datblygu 'mecanwaith cais am gau ffordd' hawdd ei ddefnyddio.
Mae gan yr Awdurdod Lleol fecanwaith dynodedig			Mae'r ALL yn defnyddio data damweiniau ffordd i		

i asesu effaith lleihau cyflymder a mesurau eraill diogelwch ar y ffyrdd ar gyfle plant i chwarae y tu allan yn eu cymunedau.			asesu effaith lleihau cyflymder a mesurau eraill o ddiogelwch ar y ffyrdd. Mecanwaith wedi'i ffocysu ar y gymuned.		
Mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun(iau) i leihau effeithiau negyddol ffyrdd a chyffyrdd prysur trwy gyflwyno mesurau lleihau cyflymder a darparu mannau croesi diogel/llwybrau i gerddwyr a beicwyr			Cynhaliwyd trwy ymgysylltu â'r gymuned, sylwi, gwybodaeth leol a data damweiniau traffig ffordd dan adolygiad ac asesiad parhaus. Mae thema 'cymunedau ffyniannus' y CIS yn ffocysu ar helpu pobl i symud o gwmpas ym Mlaenau Gwent.		
Mae gan yr Awdurdod Lleol gynllun(iau) i wella mynediad i gerddwyr a beicwyr i barciau, cyfleusterau chwarae awyr agored a chanolfannau hamdden lleol o ardaloedd preswyl			Mae'r ALI yn gweithio mewn partneriaeth gyda Sustrans i wella mynediad i feicio/cerdded. Deddf Teithio Llesol 2013. Mae CDLI BG yn amlinellu cynlluniau i wella mynediad i gerdded a beicio.		
Mae potensial i'r Awdurdod Lleol gymryd camau pellach i leihau cyflymder traffig a gwella diogelwch ar y ffyrdd er mwyn hyrwyddo cyfleoedd			Defnyddir Data Damweiniau Traffig Ffordd i adnabod unrhyw gynlluniau a allai ddenu arian gan LIC.		

chwarae					
Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio grantiau diogelwch ar y ffyrdd ac/neu ariannu arall i gefnogi cyflenwi hyfforddiant beicio i blant i safonau cenedlaethol			Hyfforddiant i Safonau Cenedlaethol yn cael ei gyflenwi i fyfyrwyr BL6 mewn 8 ysgol.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio grantiau diogelwch ar y ffyrdd ac/neu ariannu arall i ddarparu hyfforddiant diogelwch i gerddwyr, i blant			Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd – cyflenwyd Kerbcraft i 1384 o blant.		
Mae gan yr Awdurdod Lleol ffordd hwylus a chyfarwydd o drefnu cau ffyrdd dros dro, er mwyn cefnogi mwy o blant i chwarae tu allan i'w cartrefi			Mecanwaith anffurfiol ar waith Dogfen cynllunio digwyddiadau (2007) i gynghori ar ystyriaethau	Dim gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar y wefan Cynllunio digwyddiadau (2007) yn broses hir Gwasanaeth taladwy Tueddu i fod ar gyfer digwyddiadau ar raddfa fawr	
Mae'r Awdurdod Lleol yn cyfeirio at <i>Manual for Streets</i> wrth ystyried datblygiadau a newidiadau newydd i'r rhwydwaith priffyrdd/cylch trefol			Ymgynghorir â'r Manual for Streets wrth ystyried datblygiadau a newidiadau newydd i'r rhwydwaith priffyrdd/cylch trefol.		

Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio i ganllawiau arfer da a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ddatblygu cyfleusterau cerdded a beicio			Datblygir cynlluniau cerdded a beicio mewn partneriaeth â Sustrans ac yn dilyn canllawiau'r Adran Drafnidiaeth		
Mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio data anafiadau damweiniau ffordd yn ymwneud â phlant ar droed i gyfarwyddo lleoliad a chynllun ymyriadau a fyddai'n helpu plant i symud yn annibynnol o gwmpas eu cymunedau			Mae'r ALI yn monitro data Damweiniau Traffig Ffordd ac yn darparu ymyriadau i gefnogi plant i symud yn annibynnol o gwmpas eu cymunedau .		
Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried anghenion plant i gael mynediad i gyfleoedd chwarae wrth wneud penderfyniadau am gynlluniau a gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus			Mae'r ALI yn blaenoriaethu mynediad i leoliadau allweddol sy'n cynnwys rhai cyfleoedd chwarae a hamdden.		

Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau: Er mwyn i blant a theuluoedd allu cymryd rhan mewn cyfleoedd, gweithgareddau a digwyddiadau hamdden, mae'n rhaid iddyn nhw gael gwybod beth sydd ar gael yn eu hardal.

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae gan yr Awdurdod Lleol adran wedi'i nodi'n glir ar ei wefan sy'n rhoi gwybodaeth am gyfleoedd chwarae fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol (mannau chwarae, darpariaethau chwarae, clybiau a'u hygyrchedd)			Mae adran ar 'chwarae' ar gael trwy'r wefan gorfforaethol ac mae gwybodaeth ar gael hefyd trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.	Dim dolenni cyswllt at 'chwarae' o adrannau eraill lle ceir gwybodaeth i gefnogi hwylustod hygyrchedd.	Ymgymryd ag archwiliad y wefan er mwyn datblygu, codi ymwybyddiaeth ac ymestyn y wybodaeth sydd ar gael trwy'r adran chwarae ar y wefan. Codi ymwybyddiaeth trwy raglen reolaidd o ddatganiadau i'r wasg er mwyn cynyddu'r portread positif o blant a chwarae.
Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth am fynediad i gyfleoedd chwarae a chyswllt am gefnogaeth os oes angen			Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn dal y wybodaeth hon ac yn ei ddosbarthu trwy'r wefan/cyfryngau cymdeithasol/cyfleusterau chwilio. Mae gwefan gwasanaeth ieuenctid Blaenau Gwent yn darparu gwybodaeth.	Dydy'r ALI ddim yn ymwybodol o'r holl ddarparwyr	

Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi a rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau sy'n annog cyfleoedd a digwyddiadau chwarae i blant a theuluoedd			Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, trwy gyfryngau cymdeithasol, yn dosbarthu cyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiadau sy'n hyrwyddo chwarae. Taflen newyddion i holl gartrefi Blaenau Gwent. Cyfathrebiad staff wythnosol i staff yr ALI.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd sy'n cyfrannu at agweddau cymunedol positif at chwarae			Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd eang trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy bartneriaethau'r ALI.	Gellid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i ryddid hawl plant i chwarae yn yr amgylchfyd yn gyffredinol.	
Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd am awgrymiadau defnyddiol a chefnogaeth i rieni i'w helpu i annog eu plant i chwarae			Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a phartneriaethau'r ALI.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn gwneud defnydd helaeth o arwyddion ar safleoedd i ddiogelu a hyrwyddo			Dolenni cyswllt gyda chymau ym Mater B	Mae arwyddion presennol yn tueddu i fod mewn perthynas â diogelwch	

chwarae					
Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgysylltu â'r cyfryngau er mwyn hyrwyddo'r portread positif o blant yn chwarae yn yr ardal leol			Gwahoddir y cyfryngau i ddigwyddiadau chwarae lleol – Diwrnod Chwarae Cenedlaethol, Dydd Gŵyl dewi, dyddiau Hwyl i'r Teulu Dechrau'n Deg Defnyddir radio lleol i hyrwyddo chwarae.		

Sylwadau Cyffredinol: Mynediad i fannau agored/darpariaethau

Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau cydweithio er mwyn gwneud yn siŵr bod plant yn cael symud o amgylch eu cymunedau er mwyn cynyddu'r mynediad i gyfleoedd chwarae?

*Sicrhodd arian Cyfleoedd Chwarae Digonol a ddyrannwyd yn 2015 bod yr Awdurdod Lleol wedi medru comisiynu Chwarae Plant i gyflenwi sesiynau chwarae mynediad agored mewn 2 leoliad fel y nodwyd yn ADCCCh 2013 fel rhai â'r angen mwyaf am gyfleoedd chwarae. Mae'r sesiynau wedi galluogi 587 o blant dros 64 sesiwn i gael mynediad i gyfleoedd chwarae yn eu cymunedau lleol. Nodwyd y manteision canlynol gan y tîm chwarae ers cyflwyno'r sesiynau: [PSA 2016\Chwarae Plant - Report for PSA 2016.pdf](#)
<../..../cook_d1/AppData/Local/Microsoft/Windows/Temporary Internet Files/Content.Outlook/HBP61VZV/PSA 2016/Chwarae Plant - Report for PSA 2016.pdf>*

Mae sesiynau chwarae Mynediad Agored Groundworks Cymru yn cael eu cyflenwi'n uniongyrchol mewn cymunedau lleol gan hyrwyddo cydweithio yn y gymuned ar gyfer chwarae 'stepan drws' i blant. [PSA 2016\Groundworks - report for PSA 2016.pdf](#)

Dyfarwyd £5,000 o gyllid i Tai Calon er mwyn cefnogi digonolrwydd cyfleoedd chwarae mewn partneriaeth â CBSBG, sydd wedi caniatáu iddyn nhw gyflenwi ystod eang o brosiectau datblygu ac ymgysylltu cymunedol yn ffocysu'n benodol ar chwarae. Defnyddiwyd cyllid i gryfhau eu gwaith gyda grwpiau cymunedol presennol, i sefydlu grwpiau / prosiectau newydd ac i gefnogi ymgynghoriadau cymunedol ehangach ar gyfer eu rhaglen o wella'r amgylchfyd. Trwy'r rhaglen hon maen nhw wedi llwyddo i hyrwyddo'n well i'w cymunedau manteision chwarae (yn enwedig chwarae yn yr

awyr agored ac anffurfiol) i unigolion a theuluoedd. Maen nhw hefyd wedi gallu gwella cyfathrebu eu gweledigaeth o lunio mannau chwarae a chwaraeadwy ac yn benodol y ffocws ar gynyddu'r ddealltwriaeth a'r "goddefgarwch" tuag at chwarae anffurfiol. [PSA 2016\Tai Calon - report for PSA 2016.pdf <../../../../cook_d1/AppData/Local/Microsoft/Windows/Temporary Internet Files/Content.Outlook/HBP61VZV/PSA 2016/Tai Calon - report for PSA 2016.pdf>](#)

Sylwadau Cyffredinol: Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd, digwyddiadau

Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi defnyddio'r wybodaeth yn gadarnhaol i gefnogi mynediad i ddarpariaethau chwarae?

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu gwybodaeth mewn sawl fformat yn ôl yr hyn sydd orau i'r unigolyn. Cafwyd datblygiadau diweddar i wella'r wefan a datblygu adran ar gyfer Chwarae, ac fe fydd hyn yn parhau i gael ei ddatblygu fel rhan o'n cynllun gweithredu ar gyfer 2016.

Trwy dudalennau penodol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) ar y we a sefydlwyd ar Wefan Corfforaethol Blaenau Gwent, mae tudalennau'n cynnwys gosod chwarae ar y map (sy'n annog teuluoedd gyda phlant i fwynhau manteision chwarae ac sy'n cynnwys mynediad i'n swyddogaethau chwilio ar-lein ar gyfer cael mynediad i gyfleoedd chwarae yn lleol), Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (copi cyhoeddedig o'r ADCCh gan gynnwys cynllun gweithredu), Chwarae ym Mlaenau Gwent (darparu gwybodaeth mewn perthynas â chyfleoedd chwarae lleol a ariennir a sicrwydd ansawdd ar gyfer darparwyr chwarae) ac yn olaf, Get Involved, gwybodaeth i annog gwirfoddolwyr i ymgysylltu â chwarae yn eu cymuned.

Mae'r GGD yn flaenweithgar yn dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â chwarae yn yr Awdurdod Lleol trwy ei sianelau dosbarthu niferus, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, taflen newyddion, rhwydweithiau Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae a Grŵp Ymgynghorol. Mae'r GGD yn darparu gwybodaeth a chanllawiau rhad ac am ddim, cyfrinachol a diduedd ar ystod o wasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc. Maen nhw'n cynnig gwybodaeth am ddarpariaethau chwarae, gofal plant, mannau chwarae, materion iechyd, dewisiadau gyrfa, manteision, gweithgareddau chwaraeon a hamdden. Darperir gwybodaeth trwy gyfrwng llinell gymorth, chwilio ar-lein ar dudalennau GGD y wefan gorfforaethol, trwy e-bost, gwasanaeth testun a hefyd trwy ddefnydd safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae GGD wedi denu 1956 o ddilynwyr ar Facebook a thrwy Twitter. Ar gyfartaledd, ceir 2705 o ddilynwyr i bob neges gyda mudiadau eraill yn tagio GGD i hyrwyddo digwyddiadau a gwasanaethau ac i gael newyddion gan y cyhoedd. Mae'r GGD hefyd yn cynnig sesiynau estyn allan trwy gyfrwng sesiynau galw heibio wythnosol mewn 8 o leoliadau cymunedol, mynychu digwyddiadau cymunedol a chynnig cyfarfodydd 1:1 gan ddibynnu ar anghenion a gofynion unigol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod rhwystrau i chwarae (y tywydd, traffig, amser, oedolion, ac arian) yn aml yn effeithio mynediad i ddarpariaethau chwarae. Tra bo'r tywydd y tu hwnt i'n rheolaeth, mae ffactorau eraill y gallwn ni fynd i'r afael â nhw. Mae codi ymwybyddiaeth o

gyfleoedd chwarae plant yn brif flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol o ran hyrwyddo a chyhoeddusrwydd. Mae hwn yn faes lle cafwyd cefnogaeth Chwarae Plant a Phrosiect Chwarae Cynaliadwy Groundworks trwy gyflenwi eu sesiynau chwarae cymunedol.

Cynhyrchodd yr Awdurdod Lleol daflen wybodaeth hefyd i rieni/gofalwyr i gefnogi mynediad i ddarpariaethau chwarae:

Supporting the child's right to PLAY in Blaenau Gwent

Benefits to children

- Children have the right to play and to be safe.
- Play is a child's right and is essential for their physical, emotional, social and intellectual development.
- Play is a child's right and is essential for their physical, emotional, social and intellectual development.

Benefits to the community

- Play helps people to get on better.
- Play helps people to get on better.
- Play helps people to get on better.

How to support play

1. Follow your child's lead.
2. Give your child the space to play.
3. Support your child's play.
4. Challenge negative attitudes.
5. Encourage positive attitudes.
6. Encourage your child to play.
7. Encourage your child to play.
8. Encourage your child to play.
9. Encourage your child to play.
10. Encourage your child to play.

Contact us

Blaenau Gwent Family Information Service

Would you like more information on play opportunities for your child?

Please give us a call on our advice service for advice, help and support on 01495 555 515.

or email us at familyinfo@blaenau-gwent.gov.uk

or visit our website at www.blaenau-gwent.gov.uk

or visit our website at www.blaenau-gwent.gov.uk

Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae

Fe ddylai'r Awdurdod Lleol ddarparu gwybodaeth ar strwythur trefniadol y maes polisi sy'n rheoli'r agenda chwarae a'r gweithlu chwarae.

Statws CAG

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	
Meini prawf heb eu cyflawni.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r gweithlu ledled yr Awdurdod Lleol (fe ddylai hyn gynnwys nifer y gweithwyr chwarae, strwythur rheoli chwarae, lefelau cymhwyster, cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddolwyr)			Caiff gwybodaeth ei ddal ar gronfa ddata GGD a'i ddiweddarau'n flynyddol. Mae'r ALL wedi datblygu ffurflen gyswllt Datblygiad Gweithlu er mwyn ymgorffori cymwysterau penodol ar chwarae. Mae'r GGD yn dal cofnodion nifer y staff sy'n gymwys ac yn dal gwybodaeth ar gyfleoedd hyfforddiant.	Data anghyflawn gan mai dim ond at y rhai hynny ar gronfa ddata GGD a chysylltiadau ADCCh mae'n cael ei anfon ar hyn o bryd. Mae gwybodaeth ar gymwysterau a strwythurau staffio ar hyn o bryd yn gorwedd gyda thimau unigol.	I nodi darparwyr hyfforddiant eraill sy'n cynnig hyfforddiant sy'n addas i'r gweithlu chwarae a gwaith chwarae I gynnig hyfforddiant chwarae i ysgolion, y gweithlu ehangach a rhieni/gwirfoddolwyr
Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi'r gweithlu i gyd i gyrraedd lefel angenrheidiol cymhwyster Safonau Gofynnol Cenedlaethol			Mae'r ALL yn cydnabod gofynion hyfforddiant gweithwyr chwarae gan gynnwys Diogelu, Cymorth Cyntaf a hylendid bwyd sylfaenol	Ariannu ddim ar gael ar gyfer cymwysterau gwaith chwarae. Dydy'r ALL ddim wedi adnabod yr oll o'r gweithlu gwaith chwarae.	Codi ymgysylltiad gyda chyfarfodydd rhwydweithio i'r gweithlu ehangach – nodi anghenion penodol ar

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Llywodraeth Cymru					gyfer chwarae
Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi'r gweithlu i gyflawni'r lefelau cymhwyster derbyniedig a nodir gan SkillsActive			Lefel 2 'The Play Way' a ardystir gan SkillsActive ac yn cynnig pwyntiau DPP ar gael trwy'r ALI. Llwyddodd 100% o'r grŵp 1af y mis Chwefror 2016. Ariannwyd 6 lle ar gyfer Lefel 1, a 2 le ar gyfer Lefel 2 Cymhwyster Ysgolion Coedwig.	Angen nodi cyllid i ddarparu cymwysterau gwaith chwarae. CY pwyslais ar hyn o bryd ar CCLD	I fonitro cyflwyniad cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi gweithlu Gofal Plant a Chwarae
Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys gwaith chwarae o fewn i'w strategaethau Datblygu'r Gweithlu			Ar hyn o bryd mae gwaith chwarae wedi'i gynnwys trwy raglen hyfforddiant PDBCGP sy'n gorwedd o fewn i Strategaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn cefnogi partneriaid i gyflenwi hyfforddiant i grwpiau cymunedol, rhieni a gwirfoddolwyr			Mae Space Saviours yn cyflenwi hyfforddiant i 12 o grwpiau cymunedol gan gefnogi 115 o bobl ym Mlaenau Gwent. Mae Groundwork Cymru wedi cyflenwi gweithdai chwarae heb achrediad wedi'u hariannu i 3 grŵp o rieni/grwpiau cymunedol.		
Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgymryd â dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion hyfforddiant ar gyfer y gweithlu chwarae fel a ddiffinnir yn rhestr termau'r arweinyfr			Mae'r Tîm PBCGP yn cynnal dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddiant ar gyfer holl ddarparwyr gofal plant cofrestredig a rhai darparwyr anghofrestredig, gan gynnwys staff gwaith chwarae.	Diffyg cyllid i gefnogi anghenion hyfforddiant gweithwyr chwarae unigol.	
Mae gan yr Awdurdod Lleol			mae gan PBCGP gyllid datblygu	Dim byd penodol wedi'i	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
gyllid datblygu staff wedi'i ddiogelu ar gyfer chwarae, gan gynnwys gwaith chwarae			staff sy'n cynnwys y sector Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae.	ddiogelu ar gyfer chwarae/gwaith chwarae	
Mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd camau i ehangu'r amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu a gynigir i staff			Mae Tiwtor Chwarae a Gwaith Chwarae bellach wedi'i leoli o fewn yr ALI – mae'r amrywiaeth dysgu a datblygu ar gyfer chwarae wedi'i ehangu.		
Ceir ystod gynhwysfawr o gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gael i weithwyr chwarae yn yr ardal			Mae rhaglen hyfforddiant PBCGP yn cynnig ystod o gyfleoedd DPP i weithwyr chwarae.		
Ceir ystod gynhwysfawr o gyfleoedd DPP i ystod o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant			Ar gael trwy raglen hyfforddiant blynnyddol PBCGP a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae CPCKC, Dynamix, SNAP a'r prosiect chwarae Cynaliadwy hefyd yn cyflenwi hyfforddiant.		
Mae hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr a rhieni i ddatblygu eu gwybodaeth am sgiliau mewn gwaith chwarae			Mae'r ALI ar hyn o bryd yn cynnig nifer o weithdai a chyfleoedd hyfforddiant i wirfoddolwyr a rhieni gan gynnwys: • Arweinlyfr cymunedol • The Play Way • Gwirfoddolwyr mewn chwarae Darparodd CG CDEF a CGEF hyfforddiant i aelodau'r gymuned		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			a ddymunai datblygu eu gwybodaeth a sgiliau o fewn gwaith chwarae a lleoliadau. Llwyddodd 7 o gyfranogwyr i gael achrediad: Plant a Chwarae Lefel 1 – 13 awr		
Mae sesiynau ymwybyddiaeth o hyfforddiant ar gael i weithwyr proffesiynol a phenderfynwyr sydd â'u gwaith yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae			Ar hyn o bryd ar gael trwy ein nosweithiau rhwydweithio PBCGP. Sesiynau'n cael eu cynnig gyda'r nos/penwythnosau i gefnogi argaeledd Clybiau tu Allan i'r Ysgol. Mai 2015 – Cynhaliwyd cynhadledd chwarae i weithwyr proffesiynol a phenderfynwyr i hyrwyddo hawl plant i chwarae.	Ddim llawer o bobl yn cymryd rhan	

Sylwadau Cyffredinol: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae

Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi ateb y gofyn i ymgymryd neu sicrhau'r swyddogaethau rheoliadol a chyflenwi angenrheidiol i gyflawni cyfleoedd chwarae digonol?

Mae gan yr Awdurdod Lleol Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae penodol sy'n arwain yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gan sicrhau ei fod yn ateb y gofynion fel y'i nodir yn y canllawiau Statudol gan alluogi'r Awdurdod Lleol i adnabod cryfderau a diffygion a sefydlu Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth lle y'i nodir.

Cafodd swydd y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ei hariannu'n wreiddiol trwy ein Grant Gofal y tu Allan i'r Ysgol, fodd bynnag, ystyriwyd y dylid ariannu'r swydd hon, gan fod chwarae yn ddyletswydd statudol mewn perthynas â chyflawni cyfleoedd Chwarae digonol, trwy Grant Cynnal Refeniw; mae hyn yn lleihau'r risg o doriadau i Grant Llywodraeth Cymru yn effeithio ar ein gallu i gyflawni targedau a amlinellir yn y cynllun gweithredu.

Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau ei fod wedi deall a darparu ar gyfer anghenion datblygu'r gweithlu chwarae (fel y diffinnir yn Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae)?

Mae'r Awdurdod Lleol, trwy rôl y Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, yn ymgymryd ag arolwg datblygu'r gweithlu blynyddol er mwyn canfod lefelau cymhwyster ac anghenion hyfforddiant. Yn y gorffennol, mae hyn wedi canolbwyntio'n bennaf ar y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant, ond i leihau unrhyw ddyblygu, mae'r holiadur wedi'i ddiwygio er mwyn cynnwys gweithlu chwarae a gwaith chwarae.

Mae'r wybodaeth a gesglir yn cyfeirio rhaglen hyfforddiant PBCGP ar gyfer cymwysterau a datblygiad proffesiynol. Trwy'r broses hon a chyllid ychwanegol ar gyfer chwarae, roedd yr Awdurdod Lleol wedi medru ariannu 6 lle Lefel 1 a 2* le Lefel 3 ar hyfforddiant Ysgol y Goedwig trwy 'Ignite – unlocking potential' yn Aberdâr. [PSA 2016 EYCP Training Programme 2015-2016.pdf](#)*

Cwrs mynediad achrededig Lefel 2 ydy Play Way a gynigir gan Partneriaethau Gwaith Chwarae; cyflwynwyd y cwrs gan Alex Neill o Chwarae Plant a'i anelu at y rhai hynny oedd yn dymuno gwirfoddoli mewn lleoliad neu sy'n newydd i waith chwarae. Roedd y grŵp cyntaf o ddysgwyr i ymgymryd â'r Cymhwyster yn cynnwys 7 gweithiwr o sawl lleoliad gyda 100% yn pasio. Cyflwynwyd y cwrs dros 7 sesiwn a cheir pecyn cymorth i ddysgwyr sy'n cynnwys gwybodaeth gysylltiol. Mae adborth ffurfiannol wedi dangos bod y dysgwyr wedi mwynhau'r cwrs, gyda rhai yn adrodd eu bod wedi dysgu mwy oddi wrtho nag ar gwrs Gwaith Chwarae NVQ Lefel 3 a ymgwymerwyd yn breifat.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod datblygiad gweithlu yn allweddol i gadw staff yn ogystal â darparu cyfleoedd ehangach ar gyfer datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant a gynigiwyd wedi bod yn gyfyngedig gan mai darpariaeth gofal plant ydy'r gweithlu gwaith chwarae ym Mlaenau Gwent yn bennaf, lle mae ffocws a gofyniad yr Awdurdod Lleol wedi bod ar GPDD (Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad) yn hytrach na Gwaith Chwarae yn benodol.

Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau ei fod yn deall ac yn darparu'r gweithlu gwaith chwarae (fel y diffinnir yn Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae)?

Ers mis Hydref 2014, mae gan yr Awdurdod Lleol Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, sydd â'i rôl ydy cefnogi a gweithredu dyletswydd yr Awdurdod Lleol ar chwarae. Yn flaenorol, roedd y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn gweithio gyda'r sector Cyngor Sgiliau chwarae (SkillsActive); mae hefyd yn Diwtor Cyswllt gyda Phartneriaethau Gwaith Chwarae, gan alluogi datblygu cymwysterau a chysiau i gefnogi DPP. Mae rôl y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cynnwys rhwydweithio'n rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod materion sy'n effeithio ar weithlu gwaith chwarae yn cael eu cydnabod a'u hystyried yn lleol o fewn Blaenau Gwent. Mae deiliad y swydd yn ymwneud â'r grwpiau a'r ffrydiau gwaith canlynol:

- *Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru Gyfan*
- *Chwarae Cymru*
- *Partneriaethau Gwaith Chwarae*
- *Archwiliad hyfforddiant*
- *Cyfarfodydd rhwydweithio*
- *Cyhoeddusrwydd*
- *Hyfforddiant*
- *Canllawiau a chefnogaeth*
- *Adnabod a hyrwyddo arfer da*

Mater H: Ymgysylltu a chyfranogi yn y gymuned.

Fe ddylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori'n eang gyda phlant, eu teuluoedd a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â'u sylwadau am ddarpariaethau chwarae. Fe ddylai hefyd hyrwyddo ymgysylltiad eang o fewn cymunedau o ran darparu cymunedau hawdd i chwarae.

Statws CAG

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	
Meini prawf heb eu cyflawni.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo mentrau i ymgysylltu â grwpiau ieuenctid, cynghorau ysgol, cyrff llywodraethu ysgolion, grwpiau cymunedol a grwpiau perthnasol eraill i wella cyfleoedd chwarae i blant o fewn ei ardal.			Mae ymgynghori gyda chefnogaeth ar gael i gynghorau ysgol er mwyn ategu ADCCh. Mae grwpiau Cymunedol wedi derbyn cefnogaeth mewn 4 lleoliad ledled yr ALI trwy gefnogaeth yr ALI a 'phecyn cymorth Cymunedol', sef cyhoeddiad Chwarae Cymru. Mae canllawiau 'Defnydd caeau ysgol ar gyfer chwarae tu allan i oriau dysgu' wedi eu pwrcasu i bob ysgol yn yr ALI. Derbyniwyd arian gan Tai	Mae cyfyngiadau ariannol yn golygu bod mannau a chyfleoedd i bobl ifanc dan fygythiad oherwydd y gostyngiad mewn cyllidebau a gwasanaethau.	Datblygu gyda phartneriaid mecanwaith deinamig ac anffurfiol i ymgynghori â phobl ifanc er mwyn osgoi dyblygu a gwneud y gorau o ddeilliannau.

			Calon i hyrwyddo cyfleoedd chwarae yn eu cymunedau.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol ynghylch: - sicrhau bod mannau ar gael ac yn addas i chwarae - trefnu digwyddiadau chwarae - agweddau positif tuag at blant a chwarae - hyfforddiant ar bwysigrwydd chwarae.			Mae trefnu cyfleoedd a digwyddiadau chwarae yn cael eu hyrwyddo a'u cefnogi: Prosiect Space Saviours Chwarae Cymru Groundworks Cymru Chwarae Plant Diwrnod Chwarae Cenedlaethol Digwyddiadau cymunedol Cynhadledd Chwarae Tai Calon	Mae'r rhain yn tueddu i fod yn ad hoc wrth i arian ddod ar gael ac yn cael eu targedu at gymunedau penodol. Mae'n rhaid hyrwyddo agweddau positif at blant a chwarae ar lefel gymunedol	

Sylwadau Cyffredinol: Ymgysylltu a chyfranogi yn y gymuned.

Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud defnydd effeithiol o fecanweithiau sy'n bodoli o ran prosesau i blant gyfranogi ac ymgynghori gyda theuluoedd mewn perthynas â chwarae?

Mae hyrwyddo agweddau positif i chwarae plant yn nod allweddol o fewn yr Awdurdod Lleol; mae tîm PBCGP yn cydlynw Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn flynyddol gyda ffocws ar gynnwys ystod o bartneriaid ac ymgysylltu gyda'r was ger mwyn hyrwyddo agweddau positif tuag at blant yn chwarae.

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Blaenau Gwent yn cynnal cronfa ddata o ddarpariaethau chwarae a hamdden sy'n cael ei ddiweddu'n flynyddol. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth hwn fel cyfle i hyrwyddo cyfleoedd chwarae a hamdden.

System o gronfeydd data ar y we sy'n ymwneud ag ymgysylltu ac ymgynghori ydy Strategaeth Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) Blaenau Gwent, sy'n caniatáu i bartneriaid BGLI Blaenau Gwent i hysbysebu eu gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r Awdurdod Lleol wedi'i ymrwmo i wneud Blaenau Gwent yn le lle caiff ei holl drigolion eu trin fel aelodau gwerthfawr o'r gymuned, gyda gwrandawriad i'w lleisiau a'u hanghenion ledled ystod o benderfyniadau polisi. Mae'r strategaeth yn gosod allan gweledigaeth glir a fydd yn galluogi gweithwyr proffesiynol i lunio methodoleg mwy cydlynol a chyson tuag at ymgysylltu, gan arwain at well deilliannau i'n trigolion a'u cymunedau. Mae'n gwasanaethu fel glasbrint i fudiadau a gweithwyr proffesiynol cyhoeddus a'r trydydd sector i'w ddefnyddio fel dull ymgysylltu cyson. mae hefyd yn gwasanaethu fel canllaw i drigolion a rhanddeiliaid ynglŷn â'r hyn y gallen nhw ddisgwyl pan fydden nhw'n ymgysylltu, ymwneud a chyfranogi gyda phenderfynwyr a gweithwyr proffesiynol.

Mae tudalen benodol ar y we ar gyfer chwarae, er bod cyfle i wella ac ychwanegu rhai o'r adnoddau sydd wedi'u datblygu i gefnogi rhieni o ran galluogi plant i chwarae.

Mater I: Chwarae oddi fewn i holl agendâu polisi a gweithredu perthnasol

Fe ddylai'r Awdurdod Lleol archwilio'i holl agendâu polisi am eu heffeithiau posib ar gyfleoedd plant i chwarae a mewnosod targedau a chymau gweithredu er mwyn gwella cyfleoedd chwarae plant o fewn polisïau a strategaethau o'r fath.

Statws CAG

Meini prawf wedi'u cyflawni'n llawn.	
Meini prawf wedi'u cyflawni'n rhannol.	
Meini prawf heb eu cyflawni.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae person a enwir ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol sy'n pleidio chwarae plant ac sy'n sicrhau bod yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu'n cyfrannu at ac wedi'u hymgorffori o fewn i'r Cynllun Integredig Sengl			Liz Majer - Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Cymdeithasol ydy Swyddog Pleidio Chwarae'r Awdurdod ac mae hi'n eistedd ar y BGLI. Y Cyngh Haydn Trollope ydy'r Aelod Etholedig sy'n pleidio Chwarae. Mae'r ADCCh a'r Cynllun Gweithredu wedi'u hymgorffori yng ngrŵp thematig Dysgu y Cynllun Integredig Sengl (gweler tud. 16) ac yn adrodd yn ôl yn chwarterol trwy'r Fframwaith Monitro Perfformiad		

Addysg ac ysgolion

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae ysgolion yn sicrhau bod plant yn cael chwarae mewn amgylchfyd cyfoethog cyfnodau amser chwarae yn ystod diwrnod ysgol			Mae ysgolion yn cael eu hannog i ddarparu ystod o wahanol fannau, adnoddau a gweithgareddau i blant er mwyn hwyluso a hyrwyddo chwarae. Mae Groundworks Cymru wedi cyflenwi 3 sesiwn chwarae amser cinio yn Ysgol Gynradd Rhos y Fedwen.	Ceir anghysondeb ledled ysgolion gyda rhai yn blaenoriaethu chwarae fwy nag eraill. Mae'r ansawdd yn amrywio rhwng gwahanol leoliadau ysgol.	Gwobr ysgolion cyfle-i-chwarae a phecyn cymorth i'w datblygu yn 2016
Mae ysgolion yn darparu cyfleoedd chwarae tu allan i oriau dysgu			Mae 25 ysgol yn cynnig clybiau brechwast a 4 ysgol yn cynnig clybiau Ar ôl Ysgol. Mae'r penderfyniad ar ddarparu yn ôl fesul ysgol	Archwilio cyfleoedd i ehangu darpariaeth os oes modd adnabod adnoddau. Prin ydy'r wybodaeth ynglŷn â pha ysgolion unigol sy'n darparu mynediad i chwarae ar gaeau ysgol.	
Mae ysgolion yn darparu mynediad i gaeau ysgol ar gyfer chwarae yn ystod amseroedd tu allan i'r ysgol			Roedd 9 allan o 15 ysgol a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad wedi datgan bod ganddyn nhw gyfleusterau sy'n cael eu rhentu/darparu i grwpiau allanol ar gyfer cyfleoedd chwarae wedi'u strwythuro ond prin ydy'r rhai sy'n annog defnydd anffurfiol/heb	Darlun anghyflawn gan na chafwyd ymateb i geisiadau arolygon gan bob ysgol.	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			oruchwyliaeth yn ystod oriau tu allan i'r ysgol. Mae CDEF CG, mewn partneriaeth â Thîm Chwarae CBSBG, yn treialu darpariaeth chwarae teuluol newydd yn Ysgol Gynradd Rosehayworth ochr yn ochr â pheilot GemauStryd newydd gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a FfCDEF.		
Mae ysgolion yn annog plant i gerdded a seiclo i'r ysgol			Mae ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu gyda darpariaeth llwybrau diogel a rhesel feiciau i blant a phobl ifanc. Patrôls croesfannau tu allan i ysgolion. Mae ysgolion yn cynnig hyfforddiant Kerbcraft.		
Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig canllawiau i sicrhau bod ysgolion yn deall ac yn sicrhau nad oes cwtogi ar chwarae rheolaidd yn yr awyr agored			Cynghorir ysgolion am ffyrdd i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd chwarae rheolaidd. Caiff hyn ei gefnogi gan fframwaith hunanwerthuso ac archwilio Estyn, sy'n disgwyl i ysgolion i ddarparu i gynnig yn briodol yn y meysydd canlynol: - Agweddau tuag at gadw'n iach a diogel	Rhwysrau ac arferion/agweddau rhieni yn effeithio ar y ffordd mae chwarae ar gael i blant	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			- Iechyd a llesiant - Yr amgylchfyd ffisegol. Bydd hyn hefyd yn rhan o wobwr ysgolion Cyfle-i-chwarae.		

Cynllunio Gwlad a Thref

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion chwarae yn yr awyr agored plant o wahanol grwpiau oedran a gallu			Mae'r CDLI yn anelu, erbyn 2021, y bydd rhwydwaith hygyrch o fannau gwyrdd ac isadeiledd hamdden o ansawdd uchel wedi helpu cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden egnïol ac yn cyfrannu tuag at welliant mewn iechyd a lles. Mae hefyd yn cynnwys polisi strategol i greu cymunedau egnïol ac iach. Mae'n cyflenwi'r nodau ac amcanion hyn trwy Bolisi DM12 sy'n gwneud hi'n ofynnol, lle ceir diffyg mewn cyfleusterau chwarae a hamdden awyr agored, y bydd darpariaeth o 2.4 hectar o fannau hamdden agored i bob 1,000 o'r boblogaeth yn cael ei geisio ymhob datblygiad preswyl	Mae Adroddiad Monitro Blynnyddol CDLI (2015) yn nodi, yn nhermau cyfarfod â safon Meysydd Chwarae Cymru (MChC), bod y Cynllun wedi methu â chynyddu darpariaeth. Yn 2009, roedd y ddarpariaeth yn 1.22 ha i bob 1,000 o'r boblogaeth, erbyn 2015, roedd hyn wedi gostwng i 1.02.	Mae'r CDL li 'w adolygu erbyn diwedd 2016 - bydd angen inni ail-ystyried ein dull polisi yng ngoleuni'r dystiolaeth hon a ffynonellau eraill o dystiolaeth. Swyddog Cyfrifol: Lynda Healy

			newydd (o 10 uned a mwy) (safon MChC). Mae Polisi DM13 yn nodi sut y bydd mannau agored yn cael eu diogelu rhag datblygiadau newydd.		
--	--	--	---	--	--

Traffig a Thrafnidiaeth

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Cynllun Traffig Lleol yn cydnabod pwysigrwydd strydoedd, ffyrdd a llwybrau cerdded a seiclo lleol o ran cynnig cyfleoedd chwarae i blant o wahanol oedran a gallu			Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd y De-ddwyrain 2015 yn nodi rhaglenni cyfalaf a refeniw i gyflenwi gwelliannau mewn meysydd megis cerdded, seiclo, rheoli traffig ac addysg diogelwch ar y ffordd, sy'n targedu plant yn benodol, gan ganiatáu iddyn nhw ymgymryd â gweithgareddau corfforol awyr agored mewn amgylchfyd diogel a deniadol.	Mae'r arian sydd ar gael yn brin	Datblygu ceisiadau am gyllid sy'n cefnogi rhaglenni cyfalaf a refeniw sy'n cyflenwi gwelliannau mewn meysydd megis cerdded, seiclo, rheoli traffig ac addysg diogelwch ar y ffordd. Swyddog Cyfrifol: Alan Evans
Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn nodi ffyrdd o asesu a mynd i'r afael ag anghenion pob grŵp, gan gynnwys y rhai hynny sydd yn aml yn teimlo eu bod ar y cyrion			Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cymoedd y De-ddwyrain 2015 yn nodi rhaglenni cyfalaf a refeniw i gyflenwi gwelliannau mewn meysydd megis cerdded, seiclo, rheoli traffig ac addysg diogelwch ar y ffordd, sy'n caniatáu'r cyfle i blant o ardaloedd difreintiedig i gael mynediad i gyfleusterau sy'n caniatáu gweithgareddau awyr	Mae'r arian sydd ar gael yn brin	

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			agored corfforol.		

Iechyd a Llesiant

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae cynlluniau ac agenda'r Awdurdod Lleol i hyrwyddo iechyd a llesiant yn cydnabod pwysigrwydd chwarae i iechyd a lles corfforol plant a theuluoedd			Mae chwarae yn gorwedd ym mhortffolio Rheolwr Gwasanaethau Integredig Plant a Theuluoedd, sy'n eistedd ar grŵp Thematig Iechyd y CIS i gryfhau'r cysylltiadau rhwng asiantaethau partner sy'n cyfrannu at agenda Iechyd a Llesiant Blaenau Gwent.		

Tlodi Plant

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
-------------	-----------------	-----------------	---------------------------------	-----------	----------------------------

Mae cynlluniau'r Awdurdod Lleol i fynd i'r afael â thlodi yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cyfleoedd chwarae ar gael i holl deuluoedd, waeth beth fo'u hincwm			Mae Rheolwr Gwasanaethau Integredig Plant a Theuluoedd yn rheoli ystod o Raglenni Mynd i'r Afael â Thlodi Llywodraeth Cymru megis Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae ac yn eistedd ar Dasglu Gwrthdlodi Blaenau Gwent i sicrhau bod pob rhaglen Mynd i'r Afael â Thlodi yn gweithredu'n gwbl gyson. Mae chwarae yn rhan o fodel Mynd i'r Afael â Thlodi Dechrau'n Deg Blaenau Gwent i sicrhau bod cyfleoedd chwarae ar gael i rannau mwyaf anghysbell a bregus Blaenau Gwent. Fel rhan o agenda mynd i'r afael â thlodi, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hwyluso Grŵp Codi Dyheadau (GCD) a Fforwm Ymarferwyr NEET, partneriaeth aml-asiantaeth strategol a gweithredol sy'n goruchwyllo cyflenwad Framwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru (FfYDI - NEET).		
---	--	--	---	--	--

			Mae'r bartneriaeth yn aeddfed ac yn delio â phob un o'r 6 prif faes y Fframwaith, gan gynnwys dull o nodi anawsterau'n gynnar (4edd flwyddyn), diweddarau'r map darpariaeth ar gyfer Gwarant i leuenctid (4edd flwyddyn), diweddarau'r cyfarwyddiadur cymorth ar-lein (3edd flwyddyn), datblygu'n bellach rôl y 'gweithiwr blaen' a mireinio'n bellach tracio a chefnogaeth i bobl ifanc. Fel canlyniad i'r dull cydlynol hwn gyda phartneriaid, gwelwyd lleihad graddol yn niferoedd y bobl ifanc sy'n debygol o fod yn NEET: o 8.7% (74 person ifanc) yn 2009/10 i 2.2% (15 person ifanc) yn 2014/15 (heb ei wirio, adroddiad i'w ryddhau Ebrill 2016). Mae cydlynu cefnogaeth gweithiwr blaen trwy Fforwm Ymarferwyr NEET wedi bod yn allweddol i'r llwyddiant hwn.		
--	--	--	--	--	--

Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae Blynyddoedd Cynnar,			Mae Canolfannau Dechrau'n Deg Blaenau		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
a chynlluniau a gwasanaethau Dechrau'n De gyn cydnabod pwysigrwydd chwarae ac yn cyfrannu tuag at ddarpariaeth cyfleoedd chwarae cyfoethog i blant iau			Gwent yn cwmpasu ystod o bartneriaid a chyflenwad gwasanaeth gwrthdlodi. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y model gwrth-dlodi'n parhau i fod yn ganolog i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau i deuluoedd Dechrau'n Deg. Mae'r model o ganolfannau'n cydnabod pwysigrwydd chwarae yn ei raglen gyflenwi. Gweler y darlun amgaeedig:  BG Flying Start Hub Model Anti Poverty.pdf Mae rhaglen Holi ac Ateb gan ddefnyddio'r Graddegau Mesur Amgylcheddol yn cefnogi darpariaeth amgylcheddau chwarae cyfoethog trwy asesiadau cyfredol a chynlluniau gweithredu.		
Mae'r Strategaeth Gofal Plant yn cynnig canllawiau i sicrhau bod darparwyr gofal plant lleol yn deall pwysigrwydd ac yn darparu			Mae tîm PBCGP leolir yn yr ALI yn cynnig rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr i holl ddarparwyr gofal plant i gefnogi eu datblygiad		

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
amgylchfyd chwarae cyfoethog fel rhan reolaidd o'r gofal maen nhw'n ei ddarparu			proffesiynol. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) yn darparu gwybodaeth a chynghor arbenigol ar holl faterion yn ymwneud â gofal plant ac yn cyfeirio pob mater arall sydd ddim yn ymwneud â gofal plant yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae rhaglen Holi ac Ateb gan ddefnyddio'r Graddegau Mesur Amgylcheddol yn cefnogi darpariaeth amgylcheddau chwarae cyfoethog trwy asesiadau cyfredol a chynlluniau gweithredu.		

Polisiâu a mentrau Teuluol

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae mentrau cefnogi teuluoedd yn darparu gwybodaeth gyfredol a chefnogaeth i rieni i'w galluogi i gefnogi eu plant i			Mae'r GGD yn dal gwybodaeth am grwpiau rhianta, sesiynau chwarae a digwyddiadau cymunedol.		

chwarae their children to play			Mae holl fentrau cefnogi teuluoedd sydd ar gael trwy'r Tîm Gwasanaethau Integredig yn darparu gwybodaeth/cefnogaeth i rieni mewn perthynas â chwarae plant. Mae'r Fframwaith asesu'r Teulu ar y Cyd ar gyfer Dechrau'n Deg yn cydnabod Chwarae fel un o'i feini prawf ac yn hyrwyddo cyfleoedd Chwarae fel rhan o'i gynlluniau cefnogi teuluoedd. Mae chwarae yn elfen allweddol yn narpariaeth Dechrau'n Deg o fewn cynlluniau a gweithgareddau.		
--------------------------------	--	--	--	--	--

Polisïau a mentrau Rhwng y cenedlaethau

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir

Ceir ystod o ddulliau yn ymwneud â chwarae mewn gweithgaredd rhwng y cenedlaethau			Mae CDEF a CGEF CG yn darparu cyfleoedd i deuluoedd ymgysylltu â chwarae a gweithgareddau llesiant, fel arfer yn ystod y gwyliau ac ar hyn o bryd, maen nhw'n datblygu darpariaeth mewn peilot newydd yn Ysgol Gynradd Rosehayworth ynghylch prosiectau chwarae teuluol. Mae'r ALI yn cefnogi digwyddiadau Diwrnod Chwarae Cenedlaethol Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau'n Gyntaf a anelir at ymgysylltu â phlant ac oedolion i gefnogi gweithgaredd rhwng y cenedlaethau.		
Ceir gwedd greadigol i weithgaredd rhwng y cenedlaethau sy'n annog gwell rhyngweithio ymysg plant o wahanol oedrannau			Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hwyluso gweithgaredd rhwng y cenedlaethau trwy glybiau gwaith cartref ar ôl ysgol, clybiau ieuenctid a Nosweithiau Agored i Ieuenctid. Mae'r Young Reps (gwirfoddolwyr ifanc) yn cynnal gweithgareddau i bobl ifanc ymhob un o'r lleoliadau hyn. Trwy gyllid Positive Futures, mae gwaith y Tîm Ieuenctid Datgysylltiedig ar y strydoedd, gyda'r hwyr, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol yn cynnal amrywiol weithgareddau gyda phobl ifanc yn eu cymunedau.		

			Mae rhaglenni gwyliau ysgol y Gwasanaeth Ieuenctid yn annog plant a phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed i weithio gyda'i gilydd i wella eu hamgylchedd trwy wahanol brosiectau amgylcheddol a thrwy'r celfyddydau.		
--	--	--	--	--	--

Datblygu Cymunedol

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Strategaeth Gymunedol yn gwneud datganiad clir ynghylch hawliau plant i chwarae o fewn eu cymunedau		Ddim yn berthnasol	Mae'r elfen hon o'r patrymlun bellach wedi'i dyddio. Roedd y Cynllun Integredig Sengl yn disodli'r Strategaeth Gy6muedol – mae Chwarae yn nodwedd gref yn y CIS o dan y thema dysgu. Gweler tud.16 am dystiolaeth lawn.		
Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cefnogi cymunedau i ddarparu cyfleoedd chwarae i'w plant		Ddim yn berthnasol	Gweler tud.16		
Mae'r Strategaeth Gymunedol yn gwneud datganiad clir ynghylch sut mae darparu cyfleoedd		Ddim yn berthnasol	Gweler y Cynllun Integredig Sengl		

chwarae yn cyfrannu tuag at gydlynid cymunedol					
--	--	--	--	--	--

Diogelwch yn y Gymuned

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol yn gwneud datganiad clir sy'n cydnabod hawl plant i chwarae yn eu cymunedau		Ddim yn berthnasol	Mae'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol bellach wedi'i chynnwys fel rhan o'r Cynllun Integredig Sengl		
Mae'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys camau sy'n darparu amgylchfyd diogel i blant chwarae yn eu cymunedau		Ddim yn berthnasol	Fel yr uchod		

Iechyd a Diogelwch

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
Mae'r polisïau Iechyd a Diogelwch yn cydnabod yn eglur y gwerth sydd i bant allu profi risg a her			Mae'r ALI yn cydnabod pwysigrwydd risg mewn perthynas â chwarae plant a sut y gellir rheoli risg yn hytrach na'i ddileu. Mae polisïau craidd Iechyd a Diogelwch o fewn yr ALI yn ymwneud ag Iechyd a		Asesiad Risg/Lles AGID i'w fabwysiadu gan yr ALI yn 2017. Swyddog Cyfrifol: Jim Thomas

Meini prawf	Statws CAG 2013	Statws CAG 2016	Tystiolaeth i gefnogi cryfderau	Diffygion	Cynllun Cam am Gam a Nodir
			Diogelwch yn y gweithle yn unig.		
Mae polisïau a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch yn ymgorffori'r dull o les i asesiadau iechyd a diogelwch yn ôl argymhellion Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch			Anogir darparwyr i ymgymryd ag asesiadau risg/lles.	Dydy'r ALI ddim wedi mabwysiadu'r risg yn erbyn lles AGID ar gyfer asesu risg.	
Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig darpariaeth swiriant trwy gynllun yr Awdurdod Lleol i holl ddarparwyr y drydedd sector a chynghorau cymuned				Caiff swiriant ond ei gynnig gydag amodau caeth ac yn amodol ar argaeledd cyllid a chofrestri cynnal a chadw.	

Sylwadau Cyffredinol: Chwarae oddi fewn i agendâu polisi a gweithredu

Defnyddiwch yr adran hon i nodi llwyddiannau cydweithrediad ar draws meysydd polisi i wella cyfleoedd chwarae.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i archwilio ei holl agendâu polisi am eu heffaith posib ar gyfleoedd plant i chwarae ac asesu pa dargedau a chymau sy'n angenrheidiol i wella cyfleoedd chwarae plant. Mae sawl ffactor a graddfeydd amser sy'n effeithio newidiadau polisi a bydd gofyn gweithredu'r rhain yn raddol wrth i strategaethau gael eu hadolygu.

Mae chwarae yn amlwg yn holl agendâu polisi perthnasol CBS Blaenau Gwent; cyfeiriwch at y Prif ddatganiad ar dudalen 3.

Casgliadau

Fe ddylai'r adran hon nodi'r prif flaenoriaethau i Awdurdodau Lleol yn unol â'r rheoliadau ac a ddisgrifir yn y Canllawiau Statudol.

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn sail i ddull yr Awdurdod Lleol at chwarae, gan annog yr holl bartneriaid i feddwl ar draws ffiniau adrannol a threfniadol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Mae'r asesiad yn arddangos y cynnydd a'r cyraeddiadau sydd wedi'u gwneud ers y cyflwyniad yn 2013 ac mae'n parhau i ddangos ymrwymiad yr Awdurdod Lleol at chwarae, tra'n nodi meysydd sydd i'w datblygu. Mae'n bosib nad ydy'r meysydd gwannach yn ganlyniad i bolisïau neu arfer gwael, ond yn hytrach yn ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth ar adeg y cyflwyno, yn ogystal â chyfyngiadau ar amser swyddogion gyda thîm sy'n sylweddol llai ers 2013.

Mater A – Poblogaeth

Roedd y wybodaeth am ddata poblogaeth a oedd yn angenrheidiol i gwblhau'r asesiad digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gael trwy amrywiol ffynonellau gan gynnwys data ONS, Genedigaethau byw a PLASC ar gyfer y grŵp oedran 0-18. Mae gofyn i'r grŵp Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae weithio gyda'r Adran Addysg i edrych sut y gellir darparu mwy o fanylion trwy'r data PLASC ar gyfer ADCCh yn y dyfodol. Fel canlyniad, roedd y data poblogaeth a gasglwyd ar gyfer y Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn dod o gyfuniad o ffynonellau ac wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Mae problem neilltuol ynghylch y diffyg eglurder ynglŷn â'r niferoedd o blant a phobl ifanc anabl sy'n byw o fewn yr Awdurdod Lleol. Yn ystod y broses asesu, roedd ceisio canfod y niferoedd yn arbennig o heriol gan nad ydy pob plentyn sydd â datganiad (AAA) yn cael ei ddynodi'n anabl ac nid pob plentyn anabl sydd ag AAA. Daeth yn amlwg hefyd nad ydy hyn ddim bob amser yn cael ei gasglu trwy PLASC a dydy pob ysgol ddim yn gyson wrth gofnodi plant anabl, gan wneud cynllunio, cyflenwi a monitro gwasanaethau'n fwy anodd ac yn llai effeithiol o'r herwydd.

Mater B - Darparu ar gyfer anghenion amrywiol

Tra bod Blaenau Gwent yn cefnogi gwasanaethau chwarae cynhwysol, mae'r asesiad wedi nodi meysydd sydd angen eu datblygu. Fe roddir blaenoriaeth i sicrhau bod ymgynghori'n digwydd gyda grwpiau lleiafrifol er mwyn sefydlu rhwystrau i chwarae a datblygu datrysiadau gyda phartneriaid gan ystyried opsiynau cost isel i ddatblygu'n bellach y ddarpariaeth gynhwysol bresennol.

Mater C – Mannau sydd ar gael i blant chwarae

Mae angen i'r Awdurdod Lleol ailystyried bod gofod ar gyfer chwarae ddim ond yn digwydd mewn ardaloedd dynodedig. Fe ddylen ni fod yn cydnabod bod chwarae plant yn swyddogaeth gofod ac y gall a bydd plant yn chwarae ac am chwarae mewn amrywiaeth o fannau ac na ddylid cyfyngu hyn oni bai bod rheswm da. Fe fase'r dull hwn hefyd yn cynorthwyo gyda'r diffyg presennol ledled yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â safonau Meysydd Chwarae.

Ym Mlaenau Gwent mae'r gofyn cyson am ardaloedd chwarae penodedig dynodedig yn parhau, gan rieni, plant ac aelodau'r gymuned ehangach; mae'n bosib bod hyn oherwydd dealltwriaeth gyfyngedig o anghenion chwarae plant, diffyg cydnabyddiaeth o'r cyfraniad cyfyngedig mae offer chwarae sefydlog yn ei wneud o ran bodloni anghenion chwarae plant a'r diffyg gwybodaeth o ddarpariaethau mwy priodol. Mae topograffeg amgylchfyd y cymoedd a datblygiadau tai hanesyddol o fewn strydoedd cul yn cyfyngu mannau agored ar gyfer chwarae plant. Dydy rhai o ardaloedd chwarae sefydlog ym Mlaenau Gwent ddim yn y lleoliadau gorau ac fe geir problemau weithiau gyda mynediad i blant. Ceir pryderon gan rieni a phlant fel ei gilydd ynghylch mynediad i fannau chwarae, yn arbennig oherwydd traffig. Gellid hwyluso mynediad diogelach i fannau chwarae trwy ymestyn hyfforddiant Kerbcraft a safonau seiclo. Gyda mesurau gostegu traffig o amgylch ysgolion, mae ysgolion mewn sefyllfa dda o fewn eu cymunedau i ddarparu ystod o gyfleoedd ar gyfer chwarae plant. Ar adegau, caeau a thiroedd ysgolion sy'n cynrychioli'r unig fan agored sydd ar gael mewn rhai ardaloedd ym Mlaenau Gwent. Felly, gydag ysgolion hygyrch, wedi'u cynllunio'n dda, gall ysgolion gynnig cyfleoedd am amrywiaeth o ysgogiadau, syniadau, adnoddau ac amgylchoedd i chwarae.

Mater D – Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth

Gellir categorio'r ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth ym Mlaenau Gwent fel a ganlyn:

- Play provision (after school/holiday clubs/open access provision)
- Youth activities (streetgames/clubs)
- Recreational activities (sports/arts/cultural/uniformed groups)

Tra bod cydbwysedd da o ran gweithgareddau hamdden ac ieuencid ledled yr Awdurdod Lleol, mae clybiau ar ôl ysgol/gwyliau yn gyfyngedig, gyda

mynediad agored yn cael ei ariannu ar hyn o bryd trwy'r Awdurdod Lleol hyd at Ebrill 2016. Mae angen adnabod cyllido pellach er mwyn gwella a datblygu ystod y ddarpariaeth chwarae sy'n cael ei staffio. Tra bo'r Awdurdod Lleol bellach ddim yn cyflenwi darpariaeth dan oruchwyliaeth, mae gofyn cael cefnogaeth i'r sector wirfoddol a phreifat er mwyn ystyried sut y gellir pontio'r bylchau, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth a chyfleoedd i wneud y gorau o adnoddau gyda'r Ymddiriedolaeth Hamdden, Cymunedau'n Gyntaf, Cynghorau Tref a Chymuned - fe fyddai nhyn yn lleihau dyblygu, a sicrhau bod ardaloedd a flaenoriaethir yn cael eu cefnogi a'u datblygu.

Mater E – Costau darpariaeth chwarae

Cynigir cymorthdaliadau i blant anghenion ychwanegol sydd wedi cael eu cyfeirio trwy'r Panel Anghenion Ychwanegol; cynigir lleoedd a gynorthwyr i blant o gartrefi lle nad oes gwaith sy'n ateb y meini prawf. Does yr un ddarpariaeth gost wedi'i chyfyngu ond maen nhw'n cynnwys darpariaethau chwarae mynediad agored, darpariaeth Cymunedau'n Gyntaf, Cymdeithasau Tai Lleol. Mae angen ledled yr Awdurdod i ddarparu mwy o ddarpariaethau chwarae mynediad agored; mae gofyn adnabod cyllido i gefnogi cymunedau lleol i ddatblygu cymunedau hawdd i chwarae.

Mae angen i glybiau gwyliau ac ar ôl ysgol, sy'n fforddiadwy, i hyrwyddo cynhwysiant; mae mwyafrif clybiau ar ôl ysgol a gwyliau yn cael eu cynnig gan y sector breifat gyda chostau uchel a heb fod yn ymarferol i deuluoedd incwm isel sydd â nifer o blant. Mae gofyn i'r Awdurdod Lleol barhau i edrych ar ffrydiau cyllido i gyflogi gweithwyr cymorth i ddarparu mynediad i blant anabl i ddarpariaethau chwarae (sydd ar hyn o bryd yn cael eu hariannu trwy grant Teuluoedd yn Gyntaf).

Mater F – Mynediad i fannau agored a darpariaethau

Mae gan yr Awdurdod Lleol nifer o adrannau y mae angen iddyn nhw gymryd rhan yn y penderfyniadau er mwyn dylanwadu ar newidiadau mewn perthynas â mynediad a mannau agored. Yn ogystal, mae gofyn i gymunedau lleol ymgysylltu a chefnogi mannau chwaraeadwy i blant gyda chefnogaeth gan y tîm datblygu chwarae i helpu deall lleihau'r rhwystrau a nodi blaenoriaethau.

Mae'r Adran Briffyrdd yn cyflogi cydlynnydd diogelwch ar y ffordd trwy ei gyllideb refeniw craidd i gydlynu cyflwyniad Kerbcraft mewn ysgolion. Maen nhw hefyd yn cefnogi digwyddiadau teuluol i hyrwyddo diogelwch plant wrth chwarae tu allan; gall y cydlynnydd gynghori a gweithio gyda'r gymuned. Mae'r ymyriad hwn yn seiliedig ar alluogi plant a phobl ifanc i symud o amgylch eu cymunedau yn ddiogel.

Mae chwarae yn rhan sylfaenol ac integrol o ddatblygiad iach, nid yn unig i blant unigol, ond hefyd i'r gymdeithas maen nhw'n byw ynddi. Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent a'u partneriaid yn cydnabod bod chwarae yn hanfodol i iechyd a lles plant. Yn y gorffennol, ystyriwyd chwarae plant yn nhermau darpariaethau yn seiliedig ar gyfleusterau, ond erbyn hyn fe'i gwelir fel mater amgylcheddol, h.y. creu'r math o amgylchfyd mewn cylchoedd cyhoeddus lle gall plant fynd allan a chwarae gyda'u ffrindiau. Mae llunio amgylchfyd mwy cydnaws i blant yn creu'r potensial i agor llawer mwy o

gyfleoedd chwarae nag y gallai darpariaethau gyda chyfleusterau yn unig. Mae cyfleusterau chwarae, fodd bynnag, yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwerth chwarae cynyddol ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan blant a'u rhieni hefyd.

Mater G – Sicrhau a datblygu'r Gweithlu

Mae hyn wedi bod yn faes blaenoriaeth i'w ddatblygu ers en cyflwyniad yn 2013, yn gyntaf ac yn bennaf i adnabod ein gweithlu chwarae a gwaith chwarae. his has been a priority. Mae heriau'n parhau i gael eu hateb gyda rhywfaint o ddarpariaeth heb gydnabod bod ganddyn nhw gyfraniad at y darlun chwarae.

Gyda darpariaeth chwarae wedi'i staffio cyfyngedig oddi fewn i'r Awdurdod Lleol, mae mwy o bwyslais wedi'i roi ar gymwysterau Dysgu a Datblygu Gofal Plant a chyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r diffyg llwybrau gyrfa clir i'r rhai hynny a gyflogir ac a hyfforddir fel gweithwyr chwarae a gostyngiad mewn rolau gwaith chwarae hefyd yn cynnig heriau o ran manteisio ar hyfforddiant a chymwysterau.

Mater H – Ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol

Gall costau rhyngweithio gyda chymunedau unigol fod yn eithriadol o uchel; mae angen i'r Awdurdod Lleol barhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau gweithredu mecanwaith cadarn i leihau dyblygu a gwneud y gorau o ddeilliannau. Mae cyfrangoiad plant ar ei orau pan fo gan materion dan ystyriaeth yn berthnasedd uniongyrchol iddyn nhw o few neu cymunedau a bod modd iddyn nhw weld bod eu mewnbwn wedi gwneud gwahaniaeth. Bydd yr ymgyrch 'Adennill eich Parciau' yn anelu at ymgysylltu â grwpiau, i annog perchnogaeth a chreu cefnogaeth ar lefel cymunedol. Mae'r Awdurdod Lleol yn gwerthfawrogi cyfraniad pawb ac mae wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaethau a'r manau sydd eu hangen ac fe fydden nhw'n ceisio adnabod syniadau arloesol i gyfarfod ag anghenion cymunedau.

Mater I – Chwarae o fewn holl agendâu polisi a gweithredu

Fe fydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i archwilio ei holl agendâu polisi am eu heffaith posib ar gyfleoedd plant i chwarae ac asesu pa dargedau a chymau sydd eu hangen i wella cyfleoedd chwarae i blant.

Y ffordd ymlaen

Fee ddylai'r adran hon gyflwyno'n fras y Cynllun Gweithredu sy'n gosod allan pa gamau sydd angen eu cymryd i wella cyfleoedd i blant chwarae oddi fewn i ardal yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys pa fecanwaith a meini prawf a ddefnyddiwyd i gytuno a blaenoriaethu camau. Fe ddylai hefyd ddisgrifio'r camau bydd yr Awdurdod Lleol y neu cymryd gyda golwg ar y newid mewn isadeiledd, gwaith neu fecanweithiau partneriaeth i sicrhau ei fod mewn safle i gyflewni'r ddyletswyd o sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

Mae Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Blaenau Gwent wedi adnabod sawl maes blaenoriaeth a fydd yn cael eu delio'n raddol trwy Gynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae rhai meysydd a fydd yn gymharol syml i'w datrys ac yn is o ran cost. Fe nodwyd y rhain fel gwelliannau gweddol rhwydd i arferion gwaith presennol partneriaid neu ddarnau penodol o waith dan arweiniad ein Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â rhai o'r diffygion yn nhermau gwybodaeth/data mewn perthynas â'r ADCCh presennol ac i gryfhau'r gwaloedlin data sydd gynnon ni eisoes.

Mae'r cynllun gweithredu yn un i ymgysylltu ato gyda'r mwyafrif o'r camau a nowdyd yn gyraeddadwy trwy ddefnyddio adnoddau presennol, fodd bynnag, mae gofyn ymrwymiad cadarn gan bartneriaid. Bydd meysydd eraill yn fwy cymhleth ag iddyn nhw oblygiadau posib ar adnoddau. Lle bo'n bosib, mae camau sydd â goblygiadau uwch ar adnoddau wedi'u cadw i'r lleiafswm i adlewyrchu cyfyngiadau cyllido'r ALI, felly mae'r cynllun gweithredu wedi'i ffasiynu'n bennaf gyda datrysiadau cost isel/dim cost. Y meysydd hyn fydd y prif ffocws tra bo Grŵp Gweithredu'r ADCCh a rhanddeiliaid alledol, yn archwilio ffynnonellau ariannu posib.

Arwyddwyd:

Dyddiad:

Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Enw'r awdurdod lleol:	<i>Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent</i>
Enw'r swyddog cyfrifol:	<i>Claire Smith</i>
Teitl y swydd:	<i>Rheolwr Blynnyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae</i>
Dyddiad cwblhau:	<i>Mawrth 30^{ain}, 2016</i>



Camau i'w cymryd i fynd i'r afael â materion / diffygion a gofnodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Camau arfaethedig ar gyfer y cyfnod Ebrill 1^{af}, 2016 – Mawrth 31^{ain}, 2017
(Ffynhonnell ariannu: ariannu o gyllidebau'r Awdurdod Lleol ei hun ac i'w cynnwys yn y yllun Integredig Unigol).

Mater	Blaenoriaethau	Targedau	Cerrig milltir	Adnoddau, gan gynnwys costau	Ffynhonnell ariannu (ffrydiau cyllido newydd neu bresennol)
Canllawiau Statudol – fframwaith polisi	<i>Datblygu cysylltiadau gyda Chynghorau Tref a Chymuned.</i>	<i>I gael cynrychiolaeth ar grŵp Llywio Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae er mwyn rhannu gwybodaeth leol.</i>	<i>Adnabod pobl allweddol.</i> <i>Cynnal digwyddiad i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am Chwarae.</i>	<i>Amser swyddog</i>	<i>Allan o gyllidebau presennol</i>
Mater A: Poblogaeth	<i>Archwilio manteision cofrestr ganolog i blant anabl gyda chydweithwyr o adrannau eraill i wneud y gorau o adnoddau a lleihau dyblygu.</i>	<i>Data adolygu ym meddiant gwahanol Adrannau.</i> <i>Ystyried os gellir canoli'r wybodaeth.</i> <i>Ystyried pa Adrannau'r ALI sy'n dal y gofrestr.</i>	<i>Trefnwyd cyfarfod i Swyddogion perthnasol erbyn Medi 2016.</i>	<i>Amser swyddog</i>	<i>Oddi fewn i gyllidebau presennol</i>
Mater B: Darparu ar gyfer anghenion amrywiol	<i>Ymgymryd ag ymgynghori pellach gyda phlant mewn ardaloedd gwledig</i>	<i>I dargedu plant a phobl ifanc trwy data PLASC er mwyn cael dealltwriaeth o unrhyw faterion cyffredin sydd gan</i>	<i>I fod wedi cwblhau ymgynghori pellach erbyn Rhagfyr 2016</i>	<i>Amser swyddog</i>	<i>Oddi fewn i gyllidebau presennol</i>

	<i>eraill er mwyn gwella dealltwriaeth o faterion posib.</i> <i>Ymgyrch Adennill eich Parc i'w lansio yn 2016 er mwyn annog mwy o ddefnydd o ardaloedd Chwarae.</i>	<i>blant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.</i> <i>I dderbyn llai o adroddiadau am bryderon ynghylch defnydd Parciau.</i>	<i>I sefydlu tasglu i gynllunio'r ymgyrch 'Adennill eich Parc'.</i> <i>Adnabod gwirfoddolwyr cymunedol i gefnogi'r ymgyrch.</i> <i>Targedu plant a phobl ifanc trwy wasanaethau mewn ysgolion a grwpiau leuenctid.</i> <i>Cyflenwi hyfforddiant Chwarae sylfaenol i wirfoddolwyr</i> <i>Defnyddio Diwrnod Chwarae Cenedlaethol fel cyfrwng i lansio hyn.</i>	<i>Amser Swyddog Tîm Gwasanaethau Integredig.</i> <i>Poster</i> <i>Deunyddiau Hyfforddiant</i>	<i>Oddi fewn i gyllidebau presennol</i>
Mater C: Gofod sydd ar gael i blant chwarae	<i>Llunio llyfryn gwybodaeth i hyrwyddo mannau chwaraeadwy ym Mlaenau Gwent wedi'u cysylltu ag OSA/GSA.</i>	<i>I fwy o blant a phobl ifanc gael mynediad i fannau chwaraeadwy oddi fewn i'r cymunedau.</i>	<i>Adnabod a thynnu lluniau ffotograff o fannau chwaraeadwy lleol o amgylch Blaenau Gwent.</i>	<i>Amser Swyddog</i> <i>£4500 – costau cyhoeddi ac argraffu.</i>	<i>Allan o gyllidebau presennol</i>

			<i>Casglu ynghyd tîm golygyddol i ddatblygu'r llyfryn.</i> <i>Hyrwyddo feriw electronig o'r llyfryn i bob ysgol. Copïau printiedig ar gael o lleoedd dewisol.</i>		
	<i>Cyflwynwyd rhaglen adnabod 'Cymuned Hawdd Chwarae Ynddi'.</i>	<i>Adnabod 3 chymuned i gyflwyno'r rhaglen.</i>	<i>Adnabod cymunedau.</i> <i>Pleidwyr Cymunedol wedi'u hadnabod.</i>	<i>Amser Swyddog - ALI</i>	<i>Allan o gyllidebau presennol</i>
	<i>Archwilio ffynnonellau ariannu i ddatblygu a diweddarau ardaloedd chwarae.</i>	<i>Adnabod llwybrau/sianelau ariannu</i>	<i>Cyflenwyd Gweithdai Cymunedol.</i> <i>Cefnogaeth i'r Gymuned i ddechrau.</i>	<i>Pecynnau cymunedol eisoes wedi'u pwrcasu.</i> <i>Gweithdai cymunedol – £1920</i>	<i>Cyllido newydd i'w ffynnonellu.</i>
	<i>Ystyried sut y gall gwirfoddolwyr gynorthwyo i ymgymryd ag asesiadau gofod</i>	<i>Cyswllt â Camau Cymunedol Hawdd Chwarae</i>	<i>Adnabod partneriaid allweddol i gyfrannu at/cyflenwi ceisiadau.</i> <i>Datblygu ceisiadau am gyllid.</i> <i>Adnabod</i>	<i>Amser Swyddog – ALI a phartneriaeth.</i>	<i>Cyllidebau presennol</i>

	<i>chwarae.</i>		<i>gwirfoddolwyr</i> <i>Darparu hyfforddiant a llenyddiaeth.</i> <i>Datblygu mecanwaith i riportio materion i adrannau perthnasol, e.e. parciau, priffyrdd, diogelwch cymunedol</i>	<i>Amser Swydddog</i>	
Mater D: Darpariaeth dan oruchwyliaeth	<i>Cynhaliwyd astudiaethau dichonolrwydd mewn 3 ysgol i ganfod yr angen am ddarpariaeth ar ôl ysgol</i>	<i>I ateb yr angen a nodwyd am ddarpariaeth ar ôl ysgol</i>	<i>Cynnal astudiaethau dichonolrwydd erbyn Gorffennaf 2016.</i>	<i>Amser Swydddog £100 – costau argraffu</i>	<i>Allan o gyllidebau presennol</i>
	<i>Mae swyddogion tîm PBCGP yn ymgysylltu yn yr Academy Graddfa Fawr</i>	<i>I fod ar flaen datblygiad i gysylltu plant â mwy o weithgareddau corfforol</i>	<i>Adolygu tystiolaeth i gyfeirio'r camau nesaf.</i>	<i>Amser Swydddog</i>	<i>Cyllidebau presennol</i>
	<i>Sefydlu os oes unrhyw Cytundeb Partneriaeth yr Awdurdodau Lleol ar waith ym Mlaenau Gwent.</i>	<i>Bod yn ymwybodol o unrhyw gytundebau yn ymwneud â chyfleoedd chwarae.</i>	<i>I fynychu sesiynau'r academi</i> <i>I syumd unrhyw syniadau arloesol yn eu blaen</i> <i>Datblygu partneriaethau gyda sectorau eraill.</i> <i>Canfasio grŵp llywio chwarae cyntaf am wybodaeth bellach</i>	<i>Amser Swydddog</i>	<i>Cyllidebau presennol</i>

Mater E: Costau darpariaeth chwarae	<i>Caffael cyllid i gomisiynu mwy o sesiynau Mynediad Agored rhad ac am ddim. (Costau - £5600 am x1 sesiwn yr wythnos dros flwyddyn)</i>	<i>I adnabod ffynnonellaucyllido i gomisiynu mwy o sesiynau chwarae Mynediad Agored.</i>	<i>Proses gyfredol i gwmpasu ffynnonellau cyllido posib. Datblygu ceisiadau ariannu.</i>	<i>Amser Swydddog</i>	<i>Dim cost</i>
Mater F: Mynediad i ofod/darpariaeth	<i>Adnabod Pleidwyr Cymunedol er mwyn cyflenwi safonau seiclo a Kerbcraft Datblygu 'mecanwaith cais i gau ffordd' sy'n hawdd ei weithredu. Ymgymryd ag archwiliad o'r wefan gorfforaethol i ddatblygu, codi ymwybyddiaeth ac ehangu gwybodaeth sydd ar gael trwy'r adran</i>	<i>Adnabod Pleidwyr Cymunedol a gwirfoddolwyr eraill a alla gefnoi'r rhaglenni hyn. Mecanwaith yn hawdd i gael hyd iddo ar y wefan gorfforaetholgyda chyfarwyddiadau/cyngor da i aelodau'r gymuned. Fe ddylai Chwarae fod yn hawdd cael iddo ar y wefan gorfforaethol. Gwybodaeth ynglŷn â chwarae a gweithgareddau/digwyddiadau i'w ddiweddarau'n rheolaidd. Codi ymwybyddiaeth am hawl plentyn i chwarae a manteision iechyd a llesiant.</i>	<i>Gwirfoddolwyr yn cael eu cyflwyno i gydweithwyr Diogelwch ar y Ffordd. Gwirfoddolwyr i ymgymrd â hyfforddiant i gyflenwi'r rhaglenni hyn. Ymgysylltu gyda'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelwch i ystyried gwneud newidiadau i'r mecanwaith. Cynnal archwiliad erbyn Rhagfyr 2016. Cynnwys i'w</i>	<i>Amser Swydddog Amser Swydddog Amser Swydddog</i>	<i>Allan o gyllidebau presennol . Dim cost . Dim cost</i>

	<i>chwarae ar y wefan.</i> <i>Codi ymwybyddiaeth trwy raglen reolaidd o ddatganiadau i'r was ger mwyn cynyddu'r portread positif o chwarae a phlant.</i>		<i>adolygu a'i ddiweddarau erbyn mis Mawrth 2017.</i> <i>Proses gyfredol i wirio a diweddarau'n gyson.</i> <i>Datganiadau chwarterol i'r wasg i'w rhyddhau o Orffennaf 2016.</i>	Amser Swydddog	Dim cost
Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu	<i>I adnabod darparwyr hyfforddiant eraill sy'n cynnig hyfforddiant addas i'r gweithlu chwarae a gwaith chwarae</i>	<i>Adnabod darparwyr hyfforddiant a chysiau hyfforddiant sydd ar gael yn lleol.</i> <i>Hyrwyddo cyfleoedd a gynigir gan ddarparwyr eraill.</i>	<i>Archwiliad o'r darparwyr hyfforddiant erbyn Rhagfyr 2016.</i> <i>Hyrwyddo parhaus o unrhyw gyfleoedd hyfforddiant i'r Rhwydwaith.</i>	Amser Swydddog	Dim cost
	<i>I gynnig hyfforddiant chwarae i ysgolion, y gweithlu ehangach a rhieni/gwirfoddolwyr</i>	<i>Ystod o hyfforddiant Chwarae i'w gynnig gan y Swydddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i'r gweithlu Chwarae ehangach.</i> <i>Cynrychiolaeth uwch o'r Sector Chwarae mewn cyfarfodydd Rhwydweithio.</i>	<i>Adnabod cyfranogwyr posib.</i> <i>Cynnig dros 30 o leoedd yn ystod over 2016/17.</i>	<i>Amser Swydddog £500 ar gyfer adnoddau hyfforddiant, llogi ystafell.</i>	<i>Allan o gyllidebau presennol</i>
	<i>Codi lefel ymgysylltiad cyfarfodydd rhwydweithio â'r</i>		<i>Bydd y gweithlu ehangach yn cael cynnig y cyfle i</i>	Amser Swydddog	Dim cost

	<i>gweithlu ehangach - adnabod yr angen penodol i chwarae</i> <i>I fonitro cyflwyniad ariannu Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi gweithlu Gofal Plant a Chwarae</i> <i>I godi proffil Chwarae gyda gweithlu'r Tîm Gwasanaethau Integredig er mwyn sicrhau bod Chwarae'n cael ei adlewyrchu yn holl raglenni rhianta</i>	<i>Cynyddu lefelau cymhwyster.</i> <i>I gyflenwi sesiynau mewn cyfarfodydd Tîm i Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn gyntaf.</i>	<i>fynychu cyfarfodydd Rhwydweithio.</i> <i>Sefydlu'r angen i gynnig cyfarfodydd Rhwydweithio penodol ar gyfer Chwarae.</i> <i>Rhennir gwybodaeth gyda lleoliadau pan gaiff y cynllun ei gyflwyno.</i> <i>Monitro lefelau cymwysterau yn flynyddol.</i> <i>Cyflenwyd 3 sesiwn</i>	<i>Amser swyddog a phartneriaeth</i> <i>Amser Swyddog a phartneriaeth</i>	<i>Dim cost</i> <i>Dim cost</i>
Mater H: Ymgysylltu a chyfranogi yn y gymuned	<i>Datblygu gyda phartneriaid mecanwaith deinamig ac anffurfiol i ymgynghori gyda phobl ifanc.</i>	<i>Proses ymgynghorol sy'n osgoi dyblygu ac yn gwneud y gorau o ddeilliannau.</i>	<i>Cyfarfod gyda Swyddog Cyfranogi i sefydlu mecanwaith - Medi 2016.</i>	<i>Amser swyddog a phartneriaeth</i>	<i>Dim cost</i>
Mater I: Chwarae o fewn holl agendâu polisi a gweithredu	<i>Gwobr ysgolion hawdd i chwarae a phecyn cymorth i'w ddatblygu yn 2016</i>	<i>Bod â 6 'Ysgol Hawdd i Chwarae' yn 2016/17</i>	<i>6 ysgol i'w hadnabod erbyn Gorffennaf July 2016.</i>	<i>Amser Swyddog</i> <i>Pecyn cymorth - £659</i>	<i>Allan o gyllidebau presennol</i>

	<i>I wella perfformiad yn nhermau safonau Meysydd Chwarae</i> <i>Datblygu ceisiadau cyllido sy'n cefnogi rhaglenni cyfalaf a refeniw sy'n cyflenwi gwelliannau mewn meysydd megis cerdded, seiclo, rheoli traffig ac addysg diogelwch ar y ffyrdd.</i> <i>Asesiad Risg/Lles AGID i'w fabwysiadu gan yr ALI erbyn 2017.</i> <i>Swyddog Cyfrifol: Jim Thomas</i>	<i>Mae Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod Lleol i'w adolygu a'r holl dystiolaeth i'w hystyried.</i> <i>I sicrhau cyllid</i> <i>I fabwysiadu asesiad Risg/Lles AGID.</i>	<i>Rhaglen i'w chyflwyno o Fedi 2016.</i> <i>Adolygiad i'w gwblhau erbyn diwedd 2016 – Linda Healey</i> <i>Adnabod ffynonellau cyllido.</i> <i>Datblygu cais cyllido – Alan Evans</i> <i>Cyhoeddi canllawiau newydd i staff</i> <i>Ystyried anghenion hyfforddiant – Jim Thomas</i>	<i>Amser Swyddog</i> <i>Amser Swyddog</i> <i>Amser swyddog</i>	<i>Dim cost</i> <i>Llif cyllido newydd i'w nodi</i> <i>Allan o gyllidebau presennol.</i>
--	--	--	---	---	---